# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol; i ddarparu ar gyfer targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; i ddiwygio'r gyfraith ar godi taliadau am fagiau siopa; i ddarparu ar gyfer casglu gwastraff ar wahân, gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd ac i ddarparu ar gyfer gwahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi; i wneud darpariaeth ynghylch pysgodfeydd unigol a rheoleiddiedig ar gyfer pysgod cregyn; i wneud darpariaeth ynghylch ffioedd am drwyddedau morol; i sefydlu'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol; ac i wneud mân newidiadau i'r gyfraith ynghylch draenio tir ac is-ddeddfau a wneir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru. [21 Mawrth 2016]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

### RHEOLI CYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL

*Rhagarweiniad*

**1 Diben y Rhan hon**

Diben y Rhan hon yw hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## 2 Adnoddau naturiol

Yn y Rhan hon, mae "adnoddau naturiol" yn cynnwys y canlynol (ond nid yw wedi ei gyfyngu iddynt)—

(a) anifeiliaid, planhigion ac organeddau eraill;

(b) yr aer, dŵr a phridd;

(c) mwynau;

(d) nodweddion a phrosesau daearegol;

(e) nodweddion ffisiograffigol;

(f) nodweddion a phrosesau hinsoddol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 2 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 3 Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yw—

(a) defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan yn is-adran (2),

(b) cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan hwnnw, ac

(c) peidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawni'r amcan hwnnw.

(2) Yr amcan yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny—

(a) diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a

(b) cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 3 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 4 Egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

Yn y Rhan hon, "egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yw—

(a) rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd;

(b) ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu;

(c) hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt;

(d) gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;

(e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch;

(f) ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau;

(g) ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd;

(h) cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(i) ystyried cydnerthedd ecosystemau ac yn benodol, yr agweddau a ganlyn—
(i) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
(ii) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
(iii) graddfa ecosystemau;
(iv) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
(v) gallu ecosystemau i addasu.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I4** A. 4 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Dyletswyddau cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus*

## 5 Diben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru

(1) Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (OS 2012/1903) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle erthygl 4 rhodder—

**"4 Diben cyffredinol**

(1) Rhaid i'r Corff—
(a) ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a
(b) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol,

wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.

(2) Yn yr erthygl hon—

mae i "egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" ("*principles of sustainable management of natural resources*") yr ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;

mae i "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" ("*sustainable management of natural resources*") yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016."

(3) Yn erthygl 5—
(a) yn y pennawd, ar ôl "diben" mewnosoder "cyffredinol";
(b) ym mharagraff (1), ar ôl "ddiben" mewnosoder "cyffredinol yn erthygl 4";
(c) ym mharagraff (3) yn lle "swyddogaethau" rhodder "ddiben cyffredinol yn erthygl 4".

(4) Hepgorer erthyglau 5B a 5E.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I5** A. 5 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## 6 Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

(2) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cydnerthedd ecosystemau, a'r agweddau a ganlyn yn benodol—

- (a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (c) graddfa ecosystemau;
- (d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
- (e) gallu ecosystemau i addasu.

(3) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i—

- (a) arfer swyddogaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu
- (b) arfer un neu ragor o swyddogaethau barnwrol llys neu dribiwnlys.

(4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1)—

- (a) rhaid i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron ac unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992, a
- (b) rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i—

- (a) y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;
- (b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;
- (c) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi.
- **[**[F1](d) yr adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.**]**

(6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio ag is-adran (1).

(7) Rhaid i awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio ag is-adran (1).

(8) O ran awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6)—

- (a) rhaid iddo adolygu'r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad a gyhoeddir ganddo o dan is-adran (7), a
- (b) caiff adolygu'r cynllun unrhyw bryd.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "awdurdod cyhoeddus"("*public authority*") yw—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) Gweinidogion Cymru;
(b) Prif Weinidog Cymru;
(c) Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru;
(d) unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron;
(e) corff cyhoeddus (gan gynnwys un neu ragor o adrannau'r llywodraeth, awdurdod **[**F2lleol **[**F3, cyd-bwyllgor corfforedig**]** ac**]** awdurdod cynllunio lleol F4...;
(f) person sy'n dal swydd—
    (i) o dan y Goron,
    (ii) a grëwyd neu sy'n parhau mewn bodolaeth o ganlyniad i Ddeddf gyffredinol gyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU, neu
    (iii) y telir tâl cydnabyddiaeth mewn perthynas â hi allan o arian a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU;
(g) ymgymerwr statudol;

(10) Yn is-adran (9)—

mae i "awdurdod cynllunio lleol" yr ystyr a roddir i "local planning authority" gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir, bwrdeistref sirol neu gymuned yng Nghymru;

**[**F5ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);**]**

F6...

ystyr "ymgymerwr statudol" ("*statutory undertaker*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) person sydd wedi ei awdurdodi gan unrhyw ddeddfiad i weithredu unrhyw ymgymeriad rheilffordd, rheilffordd ysgafn, tramffordd, cludiant ar ffyrdd, cludiant ar ddŵr, camlas, mordwyo mewndirol, doc, harbwr, pier neu oleudy neu unrhyw ymgymeriad ar gyfer cyflenwi pŵer hydrolig;
(b) gweithredydd un o rwydweithiau'r cod cyfathrebu electronig (o fewn ystyr paragraff 1(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21));
(c) gweithredydd maes awyr (o fewn ystyr Deddf Meysydd Awyr 1986 (p. 31)) sy'n gweithredu maes awyr y mae Rhan 5 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;
(d) trawsgludwr nwy (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986 (p. 44));
(e) deiliad trwydded o dan adran 6(1) o Ddeddf Trydan 1989 (p. 29);
(f) ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth;
(g) yr Awdurdod Hedfan Sifil neu ddeiliad trwydded o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38), i'r graddau y bo'r person sy'n dal y drwydded yn cynnal gweithgareddau a awdurdodir ganddi;
(h) darparwr gwasanaeth cyffredinol o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 (p. 5).

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 6(5)(d) wedi ei fewnosod (17.10.2023) gan Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (asc 4), a. 56(3)(d), **Atod. 2 para. 6**

**F2** Geiriau yn a. 6(9) wedi eu hamnewid (21.1.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(1)(e), **Atod. 9 para. 46(a)(i)**

**F3** Geiriau yn a. 6(9) wedi eu mewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021 (O.S. 2021/1350), rhlau. 1(2), **2(2)**

**F4** Geiriau yn a. 6(9) wedi eu hepgor (21.1.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(1)(e), **Atod. 9 para. 46(a)(ii)**

**F5** Geiriau yn a. 6(10) wedi eu mewnosod (3.12.2021) gan Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021 (O.S. 2021/1350), rhlau. 1(2), **2(3)**

**F6** Geiriau yn a. 6(10) wedi eu hepgor (21.1.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(1)(e), **Atod. 9 para. 46(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 6 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 7 Rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

(2) Cyn cyhoeddi rhestr o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ("CNC") ynghylch yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd i'w cynnwys ar y rhestr.

(3) Heb ragfarnu adran 6, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal a gwella'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan yr adran hon, a

(b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, mewn ymgynghoriad ag CNC—

(a) adolygu'n gyson unrhyw restr a gyhoeddir ganddynt o dan yr adran hon,

(b) gwneud y diwygiadau hynny i unrhyw restr o'r fath y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol, ac

(c) cyhoeddi unrhyw restr a ddiwygir yn y fath fodd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei diwygio.

(5) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 7 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

*Adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol*

## 8 Dyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol

(1) Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi adroddiadau yn unol â'r adran hon sy'n cynnwys ei asesiad o gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.

(2) Rhaid i bob adroddiad nodi, ymysg pethau eraill—

(a) asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni;

(b) asesiad CNC o fioamrywiaeth (gan gynnwys yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7);

(c) yr hyn y mae CNC yn ei ystyried yw'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio, ac sy'n debygol o effeithio, ar gyflwr adnoddau naturiol;

(d) unrhyw agweddau ar gyflwr adnoddau naturiol y mae CNC yn ystyried nad oes ganddo wybodaeth ddigonol amdanynt i wneud asesiad.

(3) Rhaid i CNC gyhoeddi ei adroddiad cyntaf cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r adran hon yn dod i rym.

(4) Wedi hynny, rhaid i CNC gyhoeddi adroddiad cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn unrhyw flwyddyn y mae etholiad cyffredinol arferol i fod i gael ei gynnal.

(5) Rhaid i CNC gyhoeddi drafft o bob adroddiad sy'n ofynnol gan is-adran (4) cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn y flwyddyn y mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "etholiad cyffredinol arferol" yw'r bleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 8 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Polisi adnoddau naturiol cenedlaethol*

## 9 Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol cenedlaethol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dogfen sy'n nodi eu polisïau cyffredinol a phenodol ar gyfer cyfrannu at gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru (y "polisi adnoddau naturiol cenedlaethol").

(2) Rhaid i'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol nodi'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yw'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, gan gynnwys yr hyn y maent yn ystyried y dylid ei wneud mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw beth yn y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol y maent yn ystyried ei fod yn berthnasol i gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.

*__Statws__ Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
*__Newidiadau i ddeddfwriaeth:__ Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—
  (a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, a
  (b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol cyntaf cyn diwedd y 10 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r adran hon yn dod i rym.

(6) Mewn perthynas â'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol—
  (a) rhaid i Weinidogion Cymru ei adolygu ar ôl pob etholiad cyffredinol, a
  (b) caiff Gweinidogion Cymru ei adolygu ar unrhyw adeg arall.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol ar unrhyw adeg a rhaid iddynt gyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol fel y'i diwygiwyd.

(8) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

(9) Wrth baratoi neu ddiwygio'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad diweddaraf o dan adran 8 ynghylch cyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.

(10) Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (neu bolisi diwygiedig), rhaid iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi—
  (a) unrhyw ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi'r polisi, a
  (b) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghori.

(11) Yn is-adran (6), ystyr "etholiad cyffredinol" yw pleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) neu etholiad cyffredinol eithriadol o dan adran 5 o'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I9** A. 9 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Gweithredu'r polisi cenedlaethol ar sail ardaloedd*

### 10 Ystyr corff cyhoeddus yn adrannau 11 i 15

(1) Yn adrannau 11 i 15, ystyr "corff cyhoeddus" yw unrhyw un o'r canlynol—
  (a) cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;
  (b) Bwrdd Iechyd Lleol;
  (c) yr Ymddiriedolaethau GIG a ganlyn—
    (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;
    (ii) Felindre;
  (d) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
  (e) awdurdod tân ac achub yng Nghymru;
  (f) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
  (g) Cyngor Celfyddydau Cymru;

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(h) Cyngor Chwaraeon Cymru;
(i) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
(j) Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy reoliadau drwy—
(a) ychwanegu person,
(b) tynnu person ymaith, neu
(c) diwygio disgrifiad o berson.

(3) Ond ni chaiff y rheoliadau—
(a) ond diwygio is-adran (1) drwy ychwanegu person os yw'r person hwnnw'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;
(b) ond diwygio'r is-adran honno drwy ychwanegu un neu ragor o Weinidogion y Goron os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio.

(4) Os yw'r rheoliadau'n diwygio is-adran (1) er mwyn ychwanegu person sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus a swyddogaethau eraill, nid yw adrannau 11 i 15 ond yn gymwys i'r person hwnnw mewn perthynas â swyddogaethau'r person hwnnw sydd o natur gyhoeddus.

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—
(a) CNC,
(b) pob person y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei ychwanegu neu ei dynnu ymaith drwy'r rheoliadau, ac
(c) y personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I10** A. 10 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 11 Datganiadau ardal

(1) Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi datganiadau ("datganiadau ardal") ar gyfer yr ardaloedd o Gymru y mae CNC yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben hwyluso gweithrediad y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

(2) Caiff CNC ddefnyddio'r datganiadau ardal at unrhyw ddiben arall wrth arfer ei swyddogaethau.

(3) Rhaid i bob datganiad ardal—
(a) egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer yr ardal, drwy gyfeirio at—
(i) yr adnoddau naturiol yn yr ardal,
(ii) y manteision y mae'r adnoddau naturiol yn eu cynnig, a
(iii) y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy;
(b) egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiad;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(c) datgan sut y mae CNC yn bwriadu ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd, a sut y mae'n bwriadu cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wneud hynny;

(d) pennu'r cyrff cyhoeddus y mae CNC yn ystyried y gallant gynorthwyo i ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd.

(4) Rhaid i CNC sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chynnwys yn o leiaf un o'r ardaloedd y mae'n paratoi datganiad ardal ar eu cyfer.

(5) Rhaid i CNC—

(a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu datganiad ardal, a

(b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.

(6) Rhaid i CNC adolygu datganiadau ardal yn gyson a chaiff eu diwygio ar unrhyw adeg.

(7) Cyn cyhoeddi datganiad ardal, rhaid i CNC ystyried a ddylid—

(a) ymgorffori cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall yn y datganiad ardal, neu

(b) ymgorffori'r datganiad ardal mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 11 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 12 Cyfarwyddydau Gweinidogion Cymru i weithredu datganiadau ardal

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo corff cyhoeddus i gymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol er mwyn ymdrin â'r materion a bennir mewn datganiad ardal o dan adran 11(3).

(2) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff cyhoeddus y maent yn bwriadu ei gyfarwyddo.

(3) Pan roddir cyfarwyddyd i gorff cyhoeddus o dan yr adran hon, rhaid i'r corff gydymffurfio ag ef.

(4) Ni chaiff cyfarwyddyd o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus wneud rhywbeth na chaniateir iddo ei wneud fel arall wrth arfer ei swyddogaethau.

(5) Mewn perthynas â chyfarwyddyd o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo gael ei gyhoeddi;

(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;

(c) mae'n orfodadwy drwy orchymyn gorfodi ar gais gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 12 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## 13 Canllawiau ynghylch gweithredu datganiadau ardal

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru ynghylch camau y dylid eu cymryd i ymdrin â'r materion a bennir mewn datganiad ardal o dan adran 11(3).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau y maent yn eu rhoi at ddibenion yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** A. 13 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 14 Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC

(1) Os yw CNC yn gofyn i gorff cyhoeddus ddarparu gwybodaeth i CNC sy'n ofynnol ganddo at ddiben arfer swyddogaethau o dan adran 8 neu 11, rhaid i'r corff cyhoeddus ddarparu'r wybodaeth oni bai bod y corff cyhoeddus wedi ei wahardd rhag ei darparu yn rhinwedd deddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol arall.

(2) Os yw CNC yn gofyn i gorff cyhoeddus arfer ei swyddogaethau i ddarparu cymorth arall i CNC sy'n ofynnol gan CNC at ddiben arfer swyddogaethau o dan adran 8 neu 11, rhaid i'r corff cyhoeddus ddarparu'r cymorth oni bai bod y corff cyhoeddus yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff cyhoeddus ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r corff cyhoeddus.

(3) Mae'r dyletswyddau ar gorff cyhoeddus yn is-adrannau (1) a (2) hefyd yn ddyletswyddau ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ond nid ydynt ond yn gymwys i'r Comisiynydd os yw'r wybodaeth neu gymorth arall yn ofynnol er mwyn cynhyrchu adroddiad o dan adran 8 ar gyflwr adnoddau naturiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** A. 14 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 15 Dyletswydd ar CNC i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i gyrff cyhoeddus

(1) Os yw corff cyhoeddus yn gofyn i CNC ddarparu gwybodaeth i'r corff cyhoeddus sy'n ofynnol ganddo at ddiben gweithredu datganiad ardal, rhaid i CNC ddarparu'r wybodaeth oni bai bod CNC wedi ei wahardd rhag ei darparu yn rhinwedd deddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol arall.

(2) Os yw corff cyhoeddus yn gofyn i CNC arfer ei swyddogaethau i ddarparu cymorth arall i'r corff cyhoeddus sy'n ofynnol gan y corff cyhoeddus at ddiben gweithredu datganiad ardal, rhaid i CNC ddarparu'r cymorth oni bai bod CNC yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau CNC ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau CNC.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** A. 15 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Cytundebau rheoli tir*

### 16 Pŵer i ymrwymo i gytundebau rheoli tir

(1) Caiff CNC wneud cytundeb â pherson sydd â buddiant mewn tir yng Nghymru ynghylch rheolaeth y tir neu ddefnydd o'r tir ("cytundeb rheoli tir"), os yw'n ymddangos iddo fod gwneud hynny yn hyrwyddo cyflawni unrhyw amcan sydd ganddo o ran arfer ei swyddogaethau.

(2) Caiff cytundeb rheoli tir wneud y canlynol, ymhlith pethau eraill—

(a) gosod rhwymedigaethau mewn cysylltiad â defnydd o'r tir ar y person sydd â buddiant yn y tir;

(b) gosod cyfyngiadau ar arfer hawliau dros y tir ar y person sydd â buddiant yn y tir;

(c) darparu i unrhyw berson neu bersonau wneud y gwaith hwnnw a allai fod yn hwylus at ddibenion y cytundeb;

(d) darparu ar gyfer unrhyw fater y mae cynllun rheoli sy'n ymwneud â safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn darparu ar ei gyfer (neu y gallai ddarparu ar ei gyfer);

(e) darparu i'r naill barti neu'r llall wneud taliadau i'r parti arall neu i unrhyw berson arall;

(f) cynnwys darpariaeth gysylltiedig a chanlyniadol.

(3) Yn yr adran hon—

mae "buddiant mewn tir" ("*interest in land*") yn cynnwys unrhyw ystad mewn tir ac unrhyw hawl dros dir, pa un a yw'r hawl yn arferadwy yn rhinwedd perchenogaeth o fuddiant mewn tir neu yn rhinwedd trwydded neu gytundeb, ac mae'n cynnwys yn benodol hawliau helwriaeth;

mae i "cynllun rheoli" yr ystyr a roddir i "management scheme" gan Ran 2 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69) (gweler adran 28J);

mae i "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" yr ystyr a roddir i "site of special scientific interest" gan Ran 2 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (gweler adran 52(1)).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** A. 16 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

### 17 Effaith cytundebau rheoli tir penodol ar olynwyr yn y teitl

(1) Pan wneir cytundeb rheoli tir â pherson sydd â buddiant cymhwysol mewn tir sy'n ddarostyngedig i'r cytundeb ac nad yw'n dir cofrestredig, a'r cytundeb yn darparu bod darpariaethau'r is-adran hon yn cael effaith mewn perthynas â'r cytundeb—

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

(a) caniateir i'r cytundeb gael ei gofrestru fel pridiant tir o dan Ddeddf Pridiannau Tir 1972 (p. 61) fel pe bai'n bridiant sy'n effeithio ar dir sy'n dod o fewn paragraff (ii) o Ddosbarth D,

(b) mae darpariaethau adran 4 o'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud ag effaith peidio â chofrestru) yn gymwys fel pe bai'r cytundeb yn bridiant tir o'r fath, ac

(c) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 4 o'r Ddeddf honno, mae'r cytundeb yn rhwymo unrhyw olynydd i'r person sydd â buddiant cymwys i'r un graddau ag y mae'n rhwymo'r person hwnnw, er gwaethaf y ffaith na fyddai wedi rhwymo'r olynydd hwnnw oni bai am ddarpariaethau'r is-adran hon.

(2) Pan wneir cytundeb rheoli tir â pherson sydd â buddiant cymwys mewn tir sy'n ddarostyngedig i'r cytundeb ac sy'n dir cofrestredig, a'r cytundeb yn darparu bod darpariaethau'r is-adran hon yn cael effaith mewn perthynas â'r cytundeb—

(a) caiff y cytundeb fod yn destun hysbysiad yn y gofrestr teitlau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 (p. 9) fel pe bai'n fuddiant sy'n effeithio ar y tir cofrestredig,

(b) mae darpariaethau adrannau 28 i 30 o'r Ddeddf honno (effaith gwarediadau tir cofrestredig ar flaenoriaeth buddiannau gwrthwynebus) yn gymwys fel pe bai'r cytundeb yn fuddiant o'r fath; ac

(c) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r adrannau hynny, mae'r cytundeb yn rhwymo unrhyw olynydd i'r person sydd â buddiant cymwys i'r un graddau ag y mae'n rhwymo'r person hwnnw, er gwaethaf y ffaith na fyddai wedi rhwymo'r olynydd hwnnw oni bai am ddarpariaethau'r is-adran hon.

(3) Mae gan berson fuddiant cymwys mewn tir at ddiben yr adran hon os yw'r buddiant—

(a) yn ystad mewn ffi syml mewn meddiannaeth absoliwt;

(b) yn dymor o flynyddoedd absoliwt a roddwyd am dymor o fwy na saith mlynedd o ddyddiad ei roi ac yn yr achos hwnnw bod rhyw ran o'r cyfnod y rhoddwyd y tymor o flynyddoedd mewn perthynas ag ef yn parhau heb ddod i ben.

(4) Yn yr adran hon—

ystyr "olynydd" ("*successor*"), mewn perthynas â chytundeb â pherson sydd â buddiant cymwys mewn unrhyw dir, yw person y mae ei deitl yn deillio o'r person hwnnw sydd â buddiant cymwys, neu sy'n hawlio fel arall o dan y person hwnnw, ac eithrio yn hawl buddiant neu bridiant yr oedd buddiant y person gyda'r buddiant cymwys yn ddarostyngedig iddo yn union cyn—

(a) yr adeg y gwnaed y cytundeb, pan nad yw'r tir yn dir cofrestredig, neu

(b) yr adeg y cofrestrwyd yr hysbysiad am y cytundeb, pan fo'r tir yn dir cofrestredig;

mae i "tir cofrestredig" yr un ystyr ag a roddir i "registered land" yn Neddf Cofrestru Tir 2002.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** A. 17 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## 18 Cymhwyso Atodlen 2 i Ddeddf Coedwigaeth 1967 i gytundebau rheoli tir

Mae Atodlen 2 i Ddeddf Coedwigaeth 1967 (p. 10) (pŵer i denant am oes ac eraill ymrwymo i gyfamodau neilltuo coedwigaeth) yn gymwys i gytundebau rheoli tir fel ag y mae'n gymwys i gyfamodau neilltuo coedwigaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** A. 18 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 19 Effaith cytundebau ar gyflwyno priffordd a rhoi hawddfraint

At ddibenion unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol o ran yr amgylchiadau pan ganiateir rhagdybio bod priffordd wedi ei chyflwyno neu hawddfraint wedi ei rhoi, neu y caniateir penderfynu hynny drwy ragnodiad, mae'r ffaith bod y cyhoedd neu unrhyw berson yn defnyddio ffordd ar draws tir yn rhinwedd cytundeb rheoli tir i gael ei diystyru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** A. 19 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 20 Darpariaethau trosiannol

(1) Mae cytundeb sy'n ymwneud â thir yr ymrwymwyd iddo gan CNC, neu unrhyw gorff a ragflaenodd y corff hwnnw, o dan ddeddfiad a ddatgymhwysir i'w drin fel cytundeb rheoli tir.

(2) Y deddfiadau a ddatgymhwysir yw—

(a) adran 16 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (p. 97);

(b) adran 15 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 (p. 41);

(c) adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** A. 20 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 21 Tir y Goron

(1) Caiff yr awdurdod priodol ymrwymo i gytundeb rheoli tir mewn perthynas â buddiant yn nhir y Goron a ddelir gan y Goron neu ar ei rhan.

(2) Nid yw cytundeb rheoli tir o ran unrhyw fuddiant arall yn nhir y Goron yn cael unrhyw effaith oni bai ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod priodol.

(3) Ystyr "tir y Goron" yw tir y mae buddiant ynddo—

(a) yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl y Goron,

(b) yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn,

(c) yn perthyn i Ddugiaeth Cernyw, neu

(d) yn perthyn i un o adrannau'r llywodraeth neu'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Mawrhydi at ddibenion un o adrannau'r llywodraeth.

(4) Ystyr "yr awdurdod priodol", mewn perthynas ag unrhyw dir—

(a) os yw'r tir yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl y Goron, yw Comisiynwyr Ystad y Goron neu un o adrannau eraill y llywodraeth sy'n rheoli'r tir o dan sylw;

(b) os yw'r tir yn perthyn i Ei Mawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, yw Canghellor y Ddugiaeth;

(c) os yw'r tir yn perthyn i Ddugiaeth Cernyw, yw'r person hwnnw y mae Dug Cernyw, neu'r person sy'n meddu ar Ddugiaeth Cernyw am y tro, yn ei benodi;

(d) os yw'r tir yn perthyn i un o adrannau'r llywodraeth neu'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Mawrhydi at ddibenion un o adrannau'r llywodraeth, yw'r adran honno.

(5) Os oes unrhyw gwestiwn yn codi o dan yr adran hon ynghylch pa awdurdod yw'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw dir, mae'r cwestiwn hwnnw i gael ei gyfeirio at y Trysorlys, sydd biau'r penderfyniad terfynol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** A. 21 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Cynlluniau arbrofol*

### 22 Pŵer i atal dros dro ofynion statudol ar gyfer cynlluniau arbrofol

(1) Ar gais CNC, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn perthynas â Chymru—

(a) sy'n eithrio unrhyw berson rhag gofyniad statudol y mae CNC yn gyfrifol amdano;

(b) sy'n llacio unrhyw ofyniad o'r fath wrth ei gymhwyso i berson;

(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson y mae eithriad neu lacio gofyniad yn gymwys iddo gydymffurfio ag amodau a bennir yn y rheoliadau;

(d) sy'n addasu deddfiad mewn modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er mwyn gorfodi unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd paragraffau (a) i (c), neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

(2) Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth sy'n tynnu ymaith neu'n addasu swyddogaeth un o Weinidogion y Goron a oedd yn arferadwy gan un o Weinidogion y Goron cyn 5 Mai 2011 oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth.

(3) Cyn gwneud darpariaeth o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) bod wedi eu bodloni bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol er mwyn galluogi cynnal cynllun arbrofol sy'n debygol o gyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol,

(b) bod wedi eu bodloni na fydd y rheoliadau'n cael yr effaith gyffredinol o gynyddu'r baich rheoliadol ar unrhyw berson, a

(c) ymgynghori—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(i) â phersonau y maent yn barnu bod darpariaeth yn y rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, a

(ii) â phersonau y maent yn barnu bod y cynllun arbrofol yn debygol o effeithio arnynt fel arall.

(4) Mae rheoliadau o dan is-adran (1) yn cael effaith yn ystod cyfnod a bennir yn y rheoliadau na chaiff fod yn hwy na thair blynedd.

(5) Ond caiff rheoliadau o dan is-adran (1), ar un achlysur yn unig, ymestyn y cyfnod y mae rheoliadau blaenorol o dan yr is-adran honno yn cael effaith am gyfnod o ddim mwy na thair blynedd o ddiwedd y cyfnod a bennwyd yn y rheoliadau blaenorol.

(6) Pan fo rheoliadau o dan is-adran (1) yn cael yr effaith sylweddol o ddirymu rheoliadau blaenorol o dan yr is-adran honno, a hynny'n unig, caniateir i'r rheoliadau gael eu gwneud heb gais gan CNC.

(7) Ac nid yw is-adran (3) yn gymwys i ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan is-adran (1) sy'n dirymu rheoliadau blaenorol o dan yr is-adran honno (pa un a yw CNC yn gwneud cais am y dirymiad ai peidio).

(8) Pan fo darpariaeth wedi ei gwneud o dan is-adran (1) i alluogi cynnal cynllun arbrofol, rhaid i CNC—

(a) gwerthuso'r cynllun ar ba adeg bynnag y mae'n ystyried ei bod yn briodol, a

(b) cyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r gwerthusiad ac yn disgrifio unrhyw gamau y mae CNC yn ystyried y dylid eu cymryd yng ngoleuni'r gwerthusiad.

(9) At ddibenion yr adran hon—

(a) ystyr gofyniad statudol yw gofyniad a osodir gan ddeddfiad;

(b) mae CNC yn gyfrifol am ofyniad statudol—

(i) os yw'n ofyniad i gydymffurfio â safon neu ofyniad a osodir gan CNC,

(ii) os yw'n ofyniad i gael trwydded neu awdurdodiad arall gan CNC cyn gwneud rhywbeth,

(iii) os yw'n ofyniad y caiff CNC ei orfodi, neu

(iv) os yw'n ofyniad sy'n gymwys i CNC ac sy'n ymwneud â'r modd y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli neu eu defnyddio, neu at ba ddibenion y maent yn cael eu rheoli neu eu defnyddio.

(10) Yn yr adran hon, ystyr "cynllun arbrofol" yw cynllun a gynhelir o dan drefniadau a wneir gan CNC o dan erthygl 10C o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** A. 22 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 23 Pŵer CNC i gynnal cynlluniau arbrofol etc.

Yng Ngorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903), yn lle erthygl 10C rhodder—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**"10C Ymchwil a chynlluniau arbrofol**

(1) Caiff y Corff wneud trefniadau i gyflawni (boed gan y Corff neu gan bersonau eraill) ymchwil a chynlluniau arbrofol sy'n berthnasol i arfer ei swyddogaethau.

(2) Caiff y Corff ddarparu cefnogaeth (drwy gyfrwng arian neu fel arall) ar gyfer ymchwil a chynlluniau arbrofol sy'n berthnasol i arfer ei swyddogaethau; ac mae paragraffau (2) a (3) o erthygl 10B yn gymwys i roi cymorth ariannol o dan y paragraff hwn.

(3) Wrth gyflawni gweithgareddau o dan yr erthygl hon mewn perthynas â chadwraeth natur, rhaid i'r Corff roi sylw i unrhyw safonau cyffredin a sefydlwyd o dan adran 34(2)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 i'r graddau y maent yn gymwys i'r gweithgareddau.

(4) Yn yr erthygl hon—

ystyr "cynllun arbrofol" ("*experimental scheme*") yw cynllun sydd wedi ei ddylunio—

(a) i ddatblygu neu i gymhwyso dulliau, cysyniadau neu dechnegau newydd neu addasedig, neu

(b) i ddatblygu neu brofi cynigion ar gyfer newid rheoleiddiol;

mae "ymchwil" ("*research*") yn cynnwys ymholiadau ac ymchwiliadau."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** A. 23 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Cyffredinol*

## 24 Pŵer i ddiwygio cyfnodau ar gyfer paratoi a chyhoeddi dogfennau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n newid erbyn pa bryd y mae'n rhaid paratoi neu gyhoeddi'r dogfennau a ganlyn—

(a) adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol neu ddrafft o adroddiad o'r fath;

(b) y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth ar ffurf diwygiad i'r Rhan hon.

(3) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** A. 24 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 25 Rheoliadau o dan y Rhan hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Rhan hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(4) Nid yw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau sy'n cael yr effaith sylweddol o ddirymu rheoliadau a wnaed o dan adran 22(1), a hynny'n unig, yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn is-adran (3), ond rhaid iddo gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl cael ei wneud.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** A. 25 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 26 Dehongliad cyffredinol o'r Rhan hon

Yn y Rhan hon—

mae "adnoddau naturiol" ("*natural resources*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2;

ystyr "bioamrywiaeth" ("*biodiversity*") yw amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem;

ystyr "CNC" ("*NRW*") yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

ystyr "cytundeb rheoli tir" ("*land management agreement*") yw cytundeb o dan adran 16;

mae i "egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" ("*principles of sustainable management of natural resources*") yr ystyr a roddir gan adran 4;

mae i "polisi adnoddau naturiol cenedlaethol" ("*national natural resources policy*") yr ystyr a roddir gan adran 9;

mae i "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" ("*sustainable management of natural resources*") yr ystyr a roddir gan adran 3;

mae "tir" ("*land*") yn cynnwys tir wedi ei orchuddio â dŵr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** A. 26 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## 27 Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol

(1) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rhan hon i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903) yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion pellach o dan adrannau 13 a 15 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 (p. 24) sy'n diwygio neu'n dirymu'r ddarpariaeth a wneir gan y diwygiadau hynny.

(2) Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn darparu ar gyfer mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau sy'n ymwneud â'r Rhan hon.

 

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** A. 27 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## RHAN 2

## NEWID YN YR HINSAWDD

### *Rhagarweiniad*

### 28 Diben y Rhan hon

Diben y Rhan hon yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I28** A. 28 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

### *Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: y prif ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru*

### 29 Targed allyriadau 2050

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf **[**F7 100%**]** yn is na'r waelodlin.

(2) Gweler adran 33 am ystyr "cyfrif allyriadau net Cymru", a gweler adran 38 am ystyr y "waelodlin".

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1) fel ei bod yn pennu canran sy'n fwy nag 80%.

(4) Yn y Rhan hon, cyfeirir at y targed yn is-adran (1) fel "targed allyriadau 2050".

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Gair yn a. 29(1) wedi ei amnewid (19.3.2021) gan Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 (O.S. 2021/333), rhlau. 1(2), **2**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** A. 29 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

### 30 Targedau allyriadau interim

(1) Ar gyfer pob blwyddyn darged interim rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a fynegir fel canran islaw'r waelodlin ("targed allyriadau interim").

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob blwyddyn darged interim yn uwch na'r targed allyriadau interim ar gyfer y flwyddyn honno.

(3) Y blynyddoedd targed interim yw 2020, 2030 a 2040.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y targedau allyriadau interim cyn diwedd 2018.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** A. 30 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 31 Cyllidebau carbon

(1) Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, rhaid i Weinidogion Cymru osod drwy reoliadau gyfanswm uchaf ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ("cyllideb garbon").

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn uwch na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

(3) Y cyfnodau cyllidebol yw—

(a) 2016 i 2020, a

(b) pob cyfnod dilynol o bum mlynedd, sy'n dod i ben â 2046 i 2050.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gosod y cyllidebau carbon ar gyfer y ddau gyfnod cyllidebol cyntaf cyn diwedd 2018, a

(b) gosod y gyllideb garbon ar gyfer y trydydd cyfnod cyllidebol a'r cyfnodau cyllidebol diweddarach o leiaf bum mlynedd cyn dechrau'r cyfnod o dan sylw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** A. 31 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 32 Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: egwyddorion

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gosod pob targed allyriadau interim ar lefel y maent wedi eu bodloni ei bod yn gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050, a

(b) gosod y gyllideb garbon ar gyfer pob cyfnod cyllidebol ar lefel y maent wedi eu bodloni ei bod yn gyson â chyrraedd—

(i) targed allyriadau 2050, a

(ii) y targed allyriadau interim ar gyfer unrhyw flwyddyn darged interim sydd o fewn y cyfnod cyllidebol hwnnw neu'n dod ar ei ôl.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, targed allyriadau interim neu gyllideb garbon oni bai bod o leiaf un o'r amodau a ganlyn wedi ei fodloni—

(a) eu bod wedi eu bodloni ei bod yn briodol gwneud y newid o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol o ran—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(i) gwybodaeth wyddonol ynghylch newid yn yr hinsawdd, neu
(ii) cyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd;

(b) bod y corff cynghori wedi argymell y newid;
(c) bod y newid yn gysylltiedig â darpariaeth a wneir o dan adran 35(1) neu 37(2).

(3) Wrth wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) yr adroddiad diweddaraf o dan adran 8 ar gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru,
(b) yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol diweddaraf o dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2),
(c) yr adroddiad diweddaraf (os oes un) o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (adroddiad cenedlaethau'r dyfodol),
(d) gwybodaeth wyddonol ynghylch newid yn yr hinsawdd,
(e) technoleg sy'n berthnasol i newid yn yr hinsawdd, ac
(f) cyfreithiau a pholisïau'r UE a chyfreithiau a pholisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys cytundebau rhyngwladol ar fesurau a gynlluniwyd i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang).

(4) Mae adrannau 49 a 50 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyngor y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gael gan y corff cynghori, a'i ystyried, cyn gwneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050 neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I32** A. 32 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Targedau a chyllidebau: cwmpas a phrif gysyniadau*

## 33 Cyfrif allyriadau net Cymru

(1) "Cyfrif allyriadau net Cymru" ar gyfer cyfnod yw'r swm a gyfrifir fel a ganlyn—

(a) penderfynu swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr am y cyfnod yn unol ag adran 34;
(b) tynnu swm yr unedau carbon a gredydir i gyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod;
(c) ychwanegu swm yr unedau carbon a ddidynnir o gyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y canlynol drwy reoliadau—

(a) o dan ba amgylchiadau y caniateir credydu unedau carbon i gyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod;
(b) o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid didynnu unedau carbon o gyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod;
(c) sut y mae hynny i gael ei wneud.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Rhaid i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau bod unedau carbon sy'n cael eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod yn peidio â bod ar gael i'w gosod yn erbyn allyriadau eraill o nwy tŷ gwydr.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod terfyn, drwy reoliadau, ar swm net yr unedau carbon y caniateir gostwng cyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod o ganlyniad i gymhwyso is-adran (1)(b) ac (c).

(5) Caiff y rheoliadau ddarparu nad yw unedau carbon o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau yn cyfrannu at y terfyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** A. 33 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 34 Allyriadau net Cymru

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "allyriadau net Cymru" o nwy tŷ gwydr am gyfnod yw swm allyriadau Cymru o'r nwy hwnnw am y cyfnod, wedi ei ostwng yn ôl swm echdyniadau Cymru o'r nwy hwnnw am y cyfnod.

(2) Ystyr "allyriadau Cymru" o nwy tŷ gwydr yw—

(a) allyriadau o'r nwy hwnnw o ffynonellau yng Nghymru, a

(b) allyriadau o'r nwy hwnnw o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol sy'n cyfrif fel allyriadau Cymru yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 35.

(3) Ystyr "echdyniadau Cymru" o nwyon tŷ gwydr yw echdyniadau o'r nwy hwnnw o'r atmosffer o ganlyniad i ddefnydd tir yng Nghymru, newid mewn defnydd tir yng Nghymru neu weithgareddau coedwigaeth yng Nghymru.

(4) Rhaid i symiau allyriadau Cymru ac echdyniadau Cymru o nwy tŷ gwydr ar gyfer cyfnod gael eu penderfynu yn gyson ag arferion rhyngwladol adrodd ar garbon, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I34** A. 34 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 35 Allyriadau Cymru o hedfan a morgludiant rhyngwladol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau i allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol gyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy.

(2) Caiff y rheoliadau—

(a) pennu gweithgareddau sydd i'w hystyried yn hedfan rhyngwladol neu'n forgludiant rhyngwladol;

(b) pennu o dan ba amgylchiadau, ac i ba raddau, y mae allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol i gyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy hwnnw;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(c) pennu o ba gyfnod (pa un a yw yn y gorffennol neu yn y dyfodol) y mae allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol i gyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy hwnnw;

(d) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol i gael eu hystyried wrth benderfynu ar allyriadau Cymru o'r nwy am y flwyddyn waelodlin ar gyfer y nwy hwnnw;

(e) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol nwyon tŷ gwydr a gwahanol gyfnodau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** A. 35 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 36 Unedau carbon

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "uned garbon" yw uned o fath a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ac sy'n cynrychioli—

(a) gostyngiad mewn swm o allyriadau nwy tŷ gwydr,

(b) echdyniad o swm o nwy tŷ gwydr o'r atmosffer, neu

(c) swm o allyriadau nwy tŷ gwydr a ganiateir o dan gynllun neu drefniant sy'n gosod terfyn ar allyriadau o'r fath.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer cynllun—

(a) i gofrestru unedau carbon neu gadw cyfrif ohonynt fel arall, neu

(b) i sefydlu a chynnal cyfrifon y caniateir i Weinidogion Cymru gadw unedau carbon ynddynt, a'u trosglwyddo rhyngddynt.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth, yn benodol, i gynllun cyfredol gael ei addasu at y dibenion hyn (gan gynnwys drwy ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r cynllun cyfredol).

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) i benodi person ("gweinyddwr") i weinyddu'r cynllun;

(b) sy'n rhoi swyddogaethau i'r gweinyddwr neu'n gosod swyddogaethau arno at y diben hwnnw (gan gynnwys drwy ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r gweinyddwr);

(c) sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau neu gyfarwyddydau i'r gweinyddwr;

(d) sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddirprwyo'r gwaith o gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru neu a osodir arnynt gan y rheoliadau;

(e) i'w gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n defnyddio'r cynllun wneud taliadau (y penderfynir eu symiau gan y rheoliadau neu oddi tanynt) tuag at y gost o'i weithredu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I36** A. 36 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### 37 Nwyon tŷ gwydr

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae pob un o'r canlynol yn "nwy tŷ gwydr"—
(a) carbon deuocsid;
(b) methan;
(c) ocsid nitraidd;
(d) hydrofflworocarbonau;
(e) perfflworocarbonau;
(f) sylffwr hecsafflworid;
(g) nitrogen trifflworid.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy reoliadau er mwyn ychwanegu nwy neu ddiwygio disgrifiad o nwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I37** A. 37 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

### 38 Y waelodlin

(1) Yn y Rhan hon, ystyr y "waelodlin" yw swm cyfanredol allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr ar gyfer y blynyddoedd gwaelodlin.

(2) Y flwyddyn waleodlin ar gyfer pob nwy tŷ gwydr yw—
(a) carbon deuocsid: 1990;
(b) methan: 1990;
(c) ocsid nitraidd: 1990;
(d) hydrofflworocarbonau: 1995;
(e) perfflworocarbonau: 1995;
(f) sylffwr hecsafflworid: 1995;
(g) nitrogen trifflworid: 1995.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (2) drwy reoliadau er mwyn—
(a) pennu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr a ychwanegir gan reoliadau o dan adran 37(2);
(b) addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth o dan is-adran (3)(b) onid ydynt wedi eu bodloni ei bod yn briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol yn nghyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I38** A. 38 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

*Cydymffurfio â chyllidebau carbon: adroddiadau a datganiadau gan Weinidogion Cymru*

## 39 Cynigion a pholisïau ar gyfer cyrraedd cyllideb garbon

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn amlinellu eu cynigion a'u polisïau ar gyfer cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r adroddiad nodi cynigion a pholisïau sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r adroddiad ar gyfer y cyfnod cyllidebol cyntaf cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw;

(b) cyhoeddi'r adroddiad ar gyfer yr ail gyfnod cyllidebol a'r cyfnodau cyllidebol diweddarach cyn diwedd blwyddyn gyntaf y cyfnod o dan sylw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** A. 39 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 40 Cario symiau o un cyfnod cyllidebol i un arall

(1) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu cario rhan o'r gyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebol yn ôl i'r cyfnod cyllidebol blaenorol.

(2) Mae'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod diweddarach yn cael ei gostwng, a'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cynharach yn cael ei chynyddu, yn ôl y swm a gariwyd yn ôl.

(3) Ni chaiff y swm sy'n cael ei gario yn ôl fod yn fwy nag 1% o'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod diweddarach.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu cario unrhyw ran o'r gyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebol nas defnyddiwyd ymlaen i'r cyfnod cyllidebol nesaf.

(5) Mae'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod diweddarach yn cael ei chynyddu, a'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cynharach yn cael ei gostwng, yn ôl y swm a gariwyd ymlaen.

(6) Mae'r gyllideb garbon ar gyfer cyfnod yn un "nas defnyddiwyd" i'r graddau ei bod yn fwy na chyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod.

(7) Cyn penderfynu cario swm yn ôl neu ymlaen o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff cynghori.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I40** A. 40 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 41 Datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) paratoi datganiad terfynol ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn unol â'r adran hon, a

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) gosod y datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y cyfnod y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

(2) Rhaid i ddatganiad terfynol o dan yr adran hon ddatgan, mewn perthynas â phob nwy tŷ gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

(3) Rhaid iddo—

(a) datgan cyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru neu a ddidynnwyd ohono am y cyfnod, a

(b) rhoi manylion am nifer yr unedau hynny a'r math o unedau.

(4) Rhaid iddo ddatgan swm terfynol cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod.

(5) Rhaid iddo ddatgan a yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cario swm yn ôl neu ymlaen o dan adran 40 er mwyn cynyddu neu ostwng y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod, ac os felly rhaid iddo ddatgan y swm a gariwyd yn ôl neu ymlaen.

(6) Rhaid iddo ddatgan swm terfynol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod.

(7) Penderfynir a gyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy gyfeirio at yr wybodaeth yn y datganiad.

(8) Rhaid i'r datganiad egluro'r rhesymau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn gyfrifol am y ffaith bod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod wedi ei chyrraedd, neu nad yw ei chyrraedd.

(9) Yn benodol, rhaid iddo gynnwys asesiad Gweinidogion Cymru ynghylch i ba raddau y mae eu cynigion a'u polisïau ar gyfer cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod—

(a) wedi eu gweithredu, a

(b) wedi cyfrannu at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod (neu beidio â'i chyrraedd).

(10) Rhaid i'r asesiad ymdrin â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.

(11) Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon hefyd gynnwys—

(a) amcangyfrif o gyfanswm allyriadau defnyddwyr Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a

(b) eglurhad o sut y mae Gweinidogion Cymru wedi cyfrifo'r amcangyfrif.

(12) Ystyr "allyriadau defnyddwyr Cymru" ar gyfer cyfnod yw'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr, boed hwy yng Nghymru neu yn rhywle arall, y gellir eu priodoli yn rhesymol i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn ystod y cyfnod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I41** A. 41 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 42 Cynigion a pholisïau pan nad yw cyllideb garbon wedi ei chyrraedd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi gosod datganiad terfynol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â chyfnod cyllidebol lle mae allyriadau net Cymru yn fwy na'r gyllideb garbon.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl gosod y datganiad, rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi cynigion a pholisïau i wneud iawn am yr allyriadau sy'n fwy na'r gyllideb garbon mewn cyfnodau cyllidebol diweddarach.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I42** A. 42 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Cydymffurfio â thargedau allyriadau: datganiadau gan Weinidogion Cymru*

## 43 Datganiadau ar gyfer blynyddoedd targed interim a 2050

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) paratoi datganiad ar gyfer pob blwyddyn darged interim ac ar gyfer y flwyddyn 2050 yn unol â'r adran hon, a

(b) gosod pob datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(2) Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon ddatgan, mewn perthynas â phob nwy tŷ gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(3) Rhaid iddo—

(a) datgan cyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru neu a ddidynwyd ohono am y flwyddyn, a

(b) rhoi manylion am nifer yr unedau hynny a'r math o unedau.

(4) Rhaid iddo ddatgan swm cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn.

(5) Penderfynir a gyrhaeddwyd targed allyriadau interim neu darged allyriadau 2050 drwy gyfeirio at yr wybodaeth yn y datganiad ar gyfer y flwyddyn y mae'r targed yn ymwneud â hi.

(6) Rhaid i'r datganiad egluro'r rhesymau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn gyfrifol am y ffaith bod y targed wedi ei gyrraedd, neu nad yw ei gyrraedd.

(7) Caniateir i ddatganiad o dan yr adran hon ar gyfer blwyddyn gael ei gyfuno â'r datganiad o dan adran 41 ar gyfer y cyfnod cyllidebol sy'n cynnwys y flwyddyn honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I43** A. 43 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Swyddogaethau corff cynghori: adroddiadau a chyngor*

## 44 Corff cynghori

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) sefydlu corff corfforaethol i arfer swyddogaethau'r corff cynghori o dan y rhan hon, neu
(b) dynodi person i fod yn gorff cynghori at ddibenion y Rhan hon.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ddynodi person onid yw'r person yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

(3) Os nad oes rheoliadau o dan is-adran (1) mewn grym, y corff cynghori yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27).

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a), yn benodol, gynnwys darpariaeth ynghylch—
(a) statws ac aelodaeth y corff a sefydlir gan y rheoliadau;
(b) cyflogi staff gan y corff;
(c) tâl, lwfansau a phensiynau ar gyfer aelodau a staff;
(d) trefniadaeth a gweithdrefn y corff;
(e) adroddiadau a chyfrifon (gan gynnwys archwilio).

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a) alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r corff mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yn is-adran (4).

(6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, drosiannol neu arbed, a all gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I44** A. 44 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 45 Adroddiadau cynnydd

(1) Cyn diwedd y cyfnod cyllidebol cyntaf, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru yn nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—
(a) y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd—
(i) y cyllidebau carbon sydd wedi eu gosod o dan y Rhan hon,
(ii) y targedau allyriadau interim, a
(iii) targed allyriadau 2050,
(b) a yw'r cyllidebau a'r targedau hynny yn debygol o gael eu cyrraedd, ac
(c) unrhyw fesurau pellach sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y cyllidebau a'r targedau hynny.

(2) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 41, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—
(a) y modd y cyrhaeddwyd neu nas cyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod,
(b) y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i leihau allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr yn ystod y cyfnod, a
(c) y materion a nodir yn is-adran (1).

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

(3) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad o dan adran 43 mewn perthynas â 2030 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—
   (a) a yw'r targed allyriadau interim ar gyfer 2040 a tharged allyriadau 2050 y targedau uchaf y gellir eu cyflawni, a
   (b) os nad y targed uchaf y gellir ei gyflawni yw'r naill neu'r llall ohonynt, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(4) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad o dan adran 43 mewn perthynas â 2040 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—
   (a) a yw targed allyriadau 2050 y targed uchaf y gellir ei gyflawni,
   (b) os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(5) Caniateir cyfuno adroddiad o dan is-adran (3) neu (4) ag adroddiad o dan is-adran (2).

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o bob adroddiad a dderbynnir ganddynt o dan yr adran hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru osod ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan yr adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl cael yr adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** A. 45 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

### 46 Dyletswydd ar y corff cynghori i ddarparu cyngor a chymorth

Os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r corff cynghori roi i Weinidogion Cymru y cyngor, y dadansoddiad, yr wybodaeth neu'r cymorth arall sy'n berthnasol i—
   (a) arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Rhan hon, neu
   (b) unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** A. 46 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

### 47 Canllawiau i'r corff cynghori

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r corff cynghori roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r corff cynghori ynghylch cynnwys unrhyw gyngor neu adroddiad.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I47** A. 47 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Rheoliadau: gweithdrefn a chyngor*

## 48 Rheoliadau: gweithdrefn

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae offeryn statudol yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru os yw'n cynnwys y canlynol yn unig—

(a) rheoliadau o dan adran 44(1)(b) nad ydynt yn gwneud darpariaeth sy'n diwygio neu'n diddymu deddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn Deddf Seneddol neu mewn Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) rheoliadau o dan adran 52.

(3) Ni chaniateir i unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Rhan hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I48** A. 48 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 49 Gofyniad i gael cyngor ynghylch cynigion i wneud rheoliadau

(1) Cyn gosod rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 48(3), rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gofyn am gyngor gan y corff cynghori ynghylch y cynnig i wneud y rheoliadau, a

(b) ystyried cyngor y corff cynghori.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan y corff cynghori o dan yr adran hon, rhaid iddynt bennu cyfnod rhesymol y mae'n rhaid darparu'r cyngor oddi fewn iddo.

(3) Rhaid i'r corff cynghori ddarparu'r cyngor o fewn y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i gyngor y corff cynghori nodi'r rhesymau dros y cyngor.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyngor y corff cynghori cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.

(6) Os yw'r rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud darpariaeth wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan y corff cynghori, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol sy'n nodi'r rhesymau paham y gwnaed hynny.

(7) Nid yw'r adran hon yn gymwys i reoliadau o dan adran 44.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I49** A. 49 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 50 Cyngor ynghylch rheoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â thargedau a chyllidebau

(1) Pan fo'r corff cynghori yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau o dan adran 29 sy'n newid targed allyriadau 2050 neu reoliadau o dan adran 30 sy'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim, rhaid i'r cyngor gynnwys barn y corff cynghori ynghylch—

(a) a yw'r targed a gynigir gan Weinidogion Cymru y targed uchaf y gellir ei gyflawni, a

(b) os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(2) Pan fo'r corff cynghori yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau o dan adran 31 sy'n gosod neu'n newid cyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebol, rhaid i'r cyngor gynnwys barn y corff cynghori ynghylch—

(a) lefel briodol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod;

(b) i ba raddau y dylid cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod—

(i) drwy ostwng swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr, neu

(ii) drwy ddefnyddio unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod yn unol â rheoliadau o dan adrannau 33 a 36;

(c) y cyfraniadau at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod y dylai'r naill a'r llall o'r canlynol eu gwneud—

(i) y sectorau o economi Cymru y mae cynlluniau masnachu yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd);

(ii) y sectorau o economi Cymru nad yw cynlluniau o'r fath yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd);

(d) y sectorau o economi Cymru lle ceir cyfleoedd penodol i wneud cyfraniadau at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

(3) Pan fo'n cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, rhaid i'r corff cynghori roi sylw i'r materion a grybwyllir yn adran 32(3).

(4) Yn is-adran (2), mae i "cynllun masnachu" yr ystyr a roddir i "trading scheme" gan adran 44 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I50** A. 50 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

*Mesur a dehongli*

## 51 Mesur allyriadau

(1) At ddibenion y Rhan hon, rhaid mesur neu gyfrifo pob un o'r canlynol mewn symiau cyfwerth â thunnell o garbon deuocsid—

(a) allyriadau nwyon tŷ gwydr;

(b) gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr;

(c) echdyniadau nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer.

(2) Ystyr "swm cyfwerth â thunnell o garbon deuocsid" yw un dunnell fetrig o garbon deuocsid neu swm o unrhyw nwy tŷ gwydr arall sydd â photensial cyfwerth o ran cynhesu byd-eang (a gyfrifir yn gyson ag arferion rhyngwladol adrodd ar garbon).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I51** A. 51 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 52 Arferion rhyngwladol adrodd ar garbon

Yn y Rhan hon, ystyr "arferion rhyngwladol adrodd ar garbon" yw'r arferion cyffredin mewn perthynas ag adrodd at ddibenion—

(a) protocolau Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, neu

(b) y cytundebau neu'r trefniadau rhyngwladol eraill hynny, neu'r ymrwymiadau hynny o dan gyfreithiau'r UE, y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu drwy reoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I52** A. 52 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 53 Dehongliad cyffredinol o'r Rhan hon

Yn y Rhan hon—

ystyr "allyriadau" ("*emissions*") mewn perthynas â nwy tŷ gwydr, yw allyriadau o'r nwy hwnnw i'r atmosffer sydd i'w priodoli i weithgarwch pobl;

mae i "allyriadau Cymru" ("*Welsh emissions*") yr ystyr a roddir gan adran 34(2);

mae i "allyriadau net Cymru" ("*net Welsh emissions*") yr ystyr a roddir gan adran 34(1);

mae i "arferion rhyngwladol adrodd ar garbon" ("*international carbon reporting practice*") yr ystyr a roddir gan adran 52;

mae i "blwyddyn darged interim" ("*interim target year*") yr ystyr a roddir gan adran 30(3);

mae "corff cynghori" ("*advisory body*") i'w ddehongli yn unol ag adran 44;

mae i "cyfnod cyllidebol" ("*budgetary period*") yr ystyr a roddir gan adran 31(3);

ystyr "cyfreithiau'r UE" ("*EU law*") yw—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) yr holl hawliau, pwerau, rhwymedigaethau, ymrwymiadau a chyfyngiadau a grëir gan Gytuniadau'r UE neu sy'n codi oddi tanynt o dro i dro, a
(b) yr holl rwymedïau a gweithdrefnau y darperir ar eu cyfer gan Gytuniadau'r UE neu oddi tanynt o dro i dro;

mae i "cyfrif allyriadau net Cymru" ("*net Welsh emissions account*") yr ystyr a roddir gan adran 33;

mae i "cyllideb garbon" ("*carbon budget*") yr ystyr a roddir gan adran 31(1);

mae i "echdyniadau Cymru" ("*Welsh removals*") yr ystyr a roddir gan adran 34(3);

mae i "gwaelodlin" ("*baseline*") yr ystyr a roddir gan adran 38;

mae i "nwy tŷ gwydr" ("*greenhouse gas*") yr ystyr a roddir gan adran 37;

mae i "targed allyriadau 2050" ("*2050 emissions target*") yr ystyr a roddir gan adran 29;

mae i "targed allyriadau interim" ("*interim emissions target*") yr ystyr a roddir gan adran 30(1);

mae i "uned garbon" ("*carbon unit*") yr ystyr a roddir gan adran 36(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I53** A. 53 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

PROSPECTIVE

## RHAN 3

## CODI TALIADAU AM FAGIAU SIOPA

### *Rheoliadau ynghylch codi taliadau am fagiau siopa*

### 54 Ystyr "bag siopa"

Yn y Rhan hon, ystyr "bag siopa" yw bag a ddarperir at y diben o—

(a) galluogi nwyddau i gael eu cymryd ymaith o'r man lle cânt eu gwerthu, neu
(b) galluogi nwyddau i gael eu danfon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I54** A. 54 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

### 55 Gofyniad i godi tâl

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon ("rheoliadau bagiau siopa").

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Caiff rheoliadau bagiau siopa ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau godi tâl am gyflenwi bagiau siopa o'r disgrifiadau a bennir yn y rheoliadau o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (3).

(3) Yr amgylchiadau yw bod y nwyddau—
- (a) yn cael eu gwerthu mewn man neu o fan yng Nghymru, neu
- (b) wedi eu bwriadu ar gyfer eu danfon i berson yng Nghymru.

(4) Caiff y rheoliadau bennu disgrifiad o fag siopa drwy gyfeirio at y canlynol (er enghraifft)—
- (a) maint, trwch, gwneuthuriad, cyfansoddiad neu nodweddion eraill y bag,
- (b) y defnydd y bwriedir ei wneud o'r bag,
- (c) y pris a godir gan y gwerthwr nwyddau am gyflenwi'r bag (ac eithrio unrhyw dâl sy'n ofynnol gan y rheoliadau),

neu unrhyw gyfuniad o'r ffactorau hynny.

(5) Caiff y rheoliadau—
- (a) pennu isafswm y tâl y mae'n rhaid ei godi am fag siopa, neu
- (b) darparu i'r swm hwnnw gael ei benderfynu yn unol â'r rheoliadau.

(6) Yn y Rhan hon, ystyr "y tâl" yw unrhyw dâl am gyflenwi bagiau siopa a wneir yn unol â rheoliadau bagiau siopa.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I55** A. 55 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

## 56 Gwerthwyr nwyddau

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "gwerthwr nwyddau" yw person sy'n gwerthu nwyddau yng nghwrs busnes.

(2) At ddibenion is-adran (1), mae person yn gweithredu yng nghwrs busnes os yw'r person—
- (a) yn gweithredu unrhyw fusnes neu ymgymeriad, pa un a yw hynny ar gyfer elw ai peidio, neu
- (b) yn arfer unrhyw swyddogaethau o natur gyhoeddus.

(3) Mae is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau bagiau siopa ynghylch personau sydd i'w hystyried, neu nad ydynt i'w hystyried, yn werthwyr mewn perthynas â nwyddau.

(4) Caiff rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth sy'n gymwys i'r canlynol—
- (a) pob gwerthwr nwyddau,
- (b) gwerthwyr nwyddau penodedig,
- (c) gwerthwyr nwyddau o ddisgrifiad penodedig, neu
- (d) gwerthwyr o fewn paragraff (b) a gwerthwyr o fewn paragraff (c).

(5) Caiff y rheoliadau bennu disgrifiad o werthwr drwy gyfeirio at—
- (a) y man y mae gwerthwr yn cyflenwi nwyddau ynddo neu ohono neu'r mannau y mae gwerthwr yn cyflenwi nwyddau ynddynt neu ohonynt;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) y math o nwyddau a gyflenwir gan werthwr;
(c) gwerth y nwyddau a gyflenwir gan werthwr;
(d) trosiant gwerthwr neu unrhyw ran o'r trosiant;
(e) trefniadau gwerthwr ar gyfer cymhwyso'r enillion net o'r tâl (gweler adran 57);
(f) unrhyw ffactor arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol, pa un a yw'r ffactor hwnnw o'r un math â'r rhai a restrir ym mharagraffau (a) i (e) ai peidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I56** A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

## 57 Cymhwyso'r enillion

(1) Rhaid i reoliadau bagiau siopa ei gwneud yn ofynnol i'r enillion net o'r tâl gael eu cymhwyso at ddibenion elusennol sydd—
(a) yn ymwneud â diogelu neu wella'r amgylchedd, a
(b) o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i Gymru gyfan neu unrhyw ran ohoni (pa un a ydynt o fudd hefyd i unrhyw ardal arall ai peidio).

(2) Ond rhaid i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriad sy'n galluogi gwerthwr nwyddau i gymhwyso'r enillion net o'r tâl at ddibenion elusennol eraill pan fo'r gwerthwr—
(a) o fewn cyfnod penodedig cyn i'r ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (1) ddod i rym am y tro cyntaf, wedi cymhwyso symiau a dderbyniwyd ar ffurf taliadau am fagiau siopa at y dibenion hynny, a
(b) wedi rhoi hysbysiad ei fod wedi cymhwyso symiau at y dibenion hynny fel y crybwyllir ym mharagraff (a) ac am ddymuniad y gwerthwr i allu cymhwyso'r holl enillion net o'r tâl, neu ran ohonynt, at y dibenion hynny.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—
(a) ynghylch sut, pa bryd ac i bwy y mae'n rhaid rhoi hysbysiad;
(b) ynghylch gwybodaeth y mae'n rhaid ei darparu wrth roi hysbysiad;
(c) i'r eithriad fod yn gymwys yn ddarostyngedig i amodau.

(4) Caiff y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i werthwr nwyddau gymhwyso'r enillion net o'r tâl—
(a) at y dibenion elusennol hynny o fewn yr is-adran honno y bydd y gwerthwr yn penderfynu arnynt, neu
(b) pan fo'r rheoliadau'n pennu un diben elusennol neu ragor, at y dibenion penodedig hynny neu at y rhai hynny o'u plith y bydd y gwerthwr yn penderfynu arnynt.

(5) Caiff rheoliadau bagiau siopa (ymhlith pethau eraill)—
(a) darparu bod yr enillion net o'r tâl i'w trin fel petaent wedi eu cymhwyso yn unol â darpariaeth a wneir o dan yr adran hon os cânt eu derbyn gan bersonau penodedig neu bersonau o ddisgrifiad penodedig (neu'r ddau);
(b) gwneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau i'r enillion net o'r tâl gael eu rhoi gan werthwyr i'r personau a grybwyllir ym mharagraff (a) neu i unrhyw berson arall;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(c) ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n derbyn unrhyw enillion net o'r tâl gymhwyso'r enillion at ddibenion elusennol yn unol â darpariaeth a wneir o dan is-adran (1) neu (2).

(6) Caiff y rheoliadau—

(a) darparu i Weinidogion Cymru adennill symiau sy'n gyfwerth â'r enillion o'r tâl a dderbyniwyd neu a gymhwyswyd heb fod yn unol â darpariaeth a wneir o dan yr adran hon;

(b) darparu ar gyfer cymhwyso symiau a adenillir gan Weinidogion Cymru at ddibenion elusennol o fewn is-adran (1) (gan gynnwys y dibenion elusennol hynny o fewn yr is-adran honno y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu arnynt);

(c) darparu nad yw symiau a adenillir gan Weinidogion Cymru i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru.

(7) Caiff rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth sy'n gymwys i bersonau ar wahân i werthwyr nwyddau, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod darpariaeth o'r fath yn briodol er mwyn gorfodi darpariaeth a wneir o dan yr adran hon neu ar gyfer gwneud darpariaeth o'r fath yn effeithiol fel arall.

(8) Yn y Rhan hon, mae i "diben elusennol" yr ystyr a roddir i "charitable purpose" yn Neddf Elusennau 2011 (p. 25) (gweler adran 2 o'r Ddeddf honno); ond caiff rheoliadau bagiau siopa ddarparu i'r diffiniad fod y gymwys at ddibenion y Rhan hon gyda'r addasiadau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn sicrhau bod yr enillion net o'r tâl yn cael eu cymhwyso'n briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I57** A. 57 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Gweinyddu a gorfodi*

## 58 Gweinyddu

(1) Caiff rheoliadau bagiau siopa benodi person ("gweinyddwr") i weinyddu darpariaeth a wneir gan y rheoliadau.

(2) Caniateir penodi mwy nag un person i fod yn weinyddwr.

(3) Caiff y rheoliadau roi pwerau i weinyddwr, neu osod dyletswyddau arno.

(4) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (3) yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n gwneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n gymwys i'r gweinyddwr, neu

(b) i unrhyw ddeddfiad o'r fath fod yn gymwys, gydag addasiadau neu hebddynt, at ddibenion y rheoliadau.

(5) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at weinyddwr yn cynnwys person a benodir gan weinyddwr.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I58** A. 58 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

## 59 Cadw a chyhoeddi cofnodion

(1) Caiff rheoliadau bagiau siopa ei gwneud yn ofynnol i gofnodion gael eu cadw mewn perthynas â thaliadau a godir gan werthwyr nwyddau am fagiau siopa (pa un a yw'r taliadau'n ofynnol o dan y rheoliadau ai peidio).

(2) Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol—

(a) i'r cofnodion gael eu cyhoeddi, neu i'r wybodaeth arall honno y gellir ei phennu gael ei chyhoeddi, ar yr adegau hynny y gellir eu pennu ac yn y modd hwnnw y gellir ei bennu;

(b) i'r cofnodion gael eu cyflenwi, neu i'r wybodaeth arall honno y gellir ei phennu gael ei chyflenwi, ar gais ac yn y modd hwnnw y gellir ei bennu—

(i) i Weinidogion Cymru,

(ii) i weinyddwr, neu

(iii) i aelodau o'r cyhoedd.

(3) Caiff y rheoliadau (er enghraifft) ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi neu gyflenwi cofnodion neu wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) y swm a dderbynnir gan werthwr nwyddau ar ffurf taliadau am fagiau siopa (pa un a yw hynny'n unol â'r rheoliadau neu fel arall);

(b) enillion gros neu net y gwerthwr o'r tâl;

(c) at ba ddibenion y defnyddiwyd yr enillion net o'r tâl.

(4) Caiff rheoliadau bagiau siopa ei gwneud yn ofynnol hefyd gyhoeddi neu gyflenwi cofnodion neu wybodaeth sy'n ymwneud â'r swm y mae person wedi ei dderbyn gan werthwr ar ffurf enillion net o'r tâl sydd i'w gymhwyso at ddibenion elusennol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I59** A. 59 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

## 60 Gorfodi

(1) Caiff rheoliadau bagiau siopa roi pwerau neu ddyletswyddau i weinyddwr neu osod pwerau neu ddyletswyddau arno i orfodi darpariaeth a wneir gan y rheoliadau.

(2) Caiff y rheoliadau (er enghraifft) roi pwerau i weinyddwr—

(a) i'w gwneud yn ofynnol dangos dogfennau neu ddarparu gwybodaeth, neu

(b) i holi gwerthwr nwyddau neu swyddogion neu gyflogeion gwerthwr.

(3) Caiff y rheoliadau hefyd roi pwerau i weinyddwr holi person y mae'r gweinyddwr yn credu'n rhesymol ei fod wedi derbyn unrhyw enillion net o'r tâl neu swyddogion neu gyflogeion person o'r fath.

(4) Rhaid i reoliadau bagiau siopa sy'n rhoi pŵer o fewn is-adran (2) gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau nad yw'r pŵer yn cael ei arfer gan weinyddwr ond pan fo'r

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

gweinyddwr yn credu'n rhesymol bod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofyniad yn y rheoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I60** A. 60 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

## 61 Sancsiynau sifil

Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch sancsiynau sifil.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I61** A. 61 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cyffredinol*

## 62 Rheoliadau o dan y Rhan hon

(1) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau bagiau siopa i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau bagiau siopa yn cynnwys pŵer—
- (a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer dibenion neu achosion gwahanol;
- (b) i wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol neu drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(3) Caiff darpariaeth o dan is-adran (2)(b) ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiad.

(4) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau bagiau siopa gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I62** A. 62 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

## 63 Dehongliad cyffredinol o'r Rhan hon

Yn y Rhan hon—

mae i "bag siopa" ("*carrier bag*") yr ystyr a roddir gan adran 54;

mae "diben elusennol" ("*charitable purpose*") i'w ddehongli yn unol ag adran 57(8);

ystyr "enillion gros o'r tâl" ("*gross proceeds of the charge*") yw'r swm a dderbynnir gan werthwr nwyddau ar ffurf tâl;

ystyr "enillion net o'r tâl" ("*net proceeds of the charge*") yw enillion gros gwerthwr o'r tâl wedi eu gostwng yn ôl y symiau hynny y caniateir eu pennu;

mae "gwerthwr nwyddau" ("*seller of goods*") i'w ddehongli yn unol ag adran 56;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

ystyr "penodedig" ("*specified*") yw wedi ei bennu mewn rheoliadau bagiau siopa;

mae i "rheoliadau bagiau siopa" ("*carrier bag regulations*") yr ystyr a roddir gan adran 55;

mae i "y tâl" ("*the charge*") yr ystyr a roddir gan adran 55.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I63** A. 63 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

## 64 Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

Mae Rhan 2 o Atodlen 2 yn cynnwys mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau sy'n ymwneud â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I64** A. 64 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

VALID FROM 18/10/2023

# RHAN 4

# CASGLU A GWAREDU GWASTRAFF

*Casglu ar wahân etc. wastraff*

## 65 Gofynion sy'n ymwneud â chasglu ar wahân etc. wastraff

Yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43), ar ôl adran 45A mewnosoder—

**"45AA Wales: separate collection etc. of waste**

(1) Where a waste collection authority in Wales arranges for the collection of controlled waste in its area under section 45, it must arrange for the waste to be collected in accordance with any applicable separation requirements.

(2) A person acting in the course of a business who—

(a) collects controlled waste from premises in Wales, or

(b) receives, keeps, treats or transports controlled waste in Wales,

must do so in accordance with any applicable separation requirements.

(3) For the purposes of subsection (2), a person is acting in the course of a business if the person is—

(a) carrying on any business or undertaking, whether for profit or not, or

(b) exercising any functions of a public nature.

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(4) An occupier of premises in Wales who presents controlled waste for collection (whether by a waste collection authority or by any other person) must do so in accordance with any applicable separation requirements.

(5) Subsection (4) does not apply to an occupier of premises within paragraph (a) or (b) of section 75(5) (domestic property and caravans).

(6) A separation requirement is a requirement to take steps specified in regulations made by the Welsh Ministers for the purpose of ensuring or maintaining the separation of one or more types of waste from other types of waste or from other substances or articles.

(7) A separation requirement is applicable in the circumstances specified in relation to that requirement in regulations made by the Welsh Ministers.

(8) A person commits an offence if the person fails without reasonable excuse to comply with subsection (2) or (4).

(9) A person who commits an offence under subsection (8) is liable on summary conviction, or on conviction on indictment, to a fine.

(10) The Welsh Ministers may by regulations make provision (which may include provision amending this section)—

(a) for subsection (1) or (2) to apply subject to exceptions;

(b) for subsection (4) to apply subject to exceptions in addition to those in subsection (5).

(11) Regulations under this section may make different provision for different purposes, different cases (including different persons, premises or types of waste) and different areas.

**45AB Code of practice**

(1) The Welsh Ministers may issue one or more codes of practice for the purpose of giving practical guidance about how to comply with requirements imposed by or under section 45AA.

(2) The Welsh Ministers may revoke or revise a code of practice issued under this section.

(3) Before issuing a code of practice (or revised code), the Welsh Ministers must consult such persons as they think appropriate.

(4) Where the Welsh Ministers issue a code of practice (or revised code) they must—

(a) publish the code, and

(b) lay a copy before the National Assembly for Wales.

(5) A code of practice issued under this section is admissible in evidence in any proceedings and must be taken into account by a court in determining any question to which it appears to the court to be relevant."

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I65** A. 65 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

*Gwaredu gwastraff*

VALID FROM 06/04/2024

**66 Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos**

(1) Yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ar ôl adran 34C mewnosoder—

*"Wales: disposal of food waste*

**34D Prohibition on disposal of food waste to sewer**

(1) An occupier of premises in Wales must not—

(a) discharge food waste produced on or brought onto the premises, or

(b) knowingly cause or knowingly permit food waste produced on or brought onto the premises to be discharged,

into a public sewer or a sewer or drain communicating with a public sewer.

(2) Subsection (1) does not apply to an occupier of premises within paragraph (a) or (b) of section 75(5) (domestic property and caravans).

(3) A person commits an offence if, without reasonable excuse, the person contravenes subsection (1).

(4) A person who commits an offence under subsection (3) is liable on summary conviction, or on conviction on indictment, to a fine.

(5) In subsection (1)—

"food waste" means controlled waste that—

(a) has at any time been food (which for this purpose does not include drink) intended for human consumption, or

(b) is biodegradable waste arising from the processing or preparation of food or drink,

but does not include waste that is mixed with water or any other liquid as a result of the water or liquid having been used to clean any place or equipment used in processing or preparing food or drink;

"drain", "public sewer" and "sewer" have the meanings given in section 219(1) of the Water Industry Act 1991.

(6) The Welsh Ministers may by regulations—

(a) provide for subsection (1) to apply only in circumstances specified in the regulations;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) make provision (which may include provision amending this section) for subsection (1) to apply subject to exceptions in addition to those in subsection (2);

(c) amend the definition of "food waste" in subsection (5).

(7) Regulations under subsection (6)(a) or (b) may make different provision for different purposes, different cases (including different persons, premises or types of food waste) and different areas."

(2) Yn adran 118 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (p. 56)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "trade premises" mewnosoder "in England";

(b) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) Subject to the following provisions of this Chapter and section 34D of the Environmental Protection Act 1990, the occupier of any trade premises in Wales in the area of a sewage undertaker may discharge any trade effluent proceeding from those premises into the undertaker's public sewers if the occupier does so with the undertaker's consent."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I66** A. 66 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

## 67 Pŵer i wahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi

Ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8), ar ôl adran 9 mewnosoder—

### "9A Rheoliadau sy'n gwahardd llosgi gwastraff

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o losgi mathau penodedig o wastraff yng Nghymru, ac mewn cysylltiad â'i wahardd neu ei reoleiddio.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud y canlynol (ymhlith pethau eraill) —

(a) diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 sy'n ymwneud â gweithrediad peiriannau llosgi gwastraff neu beiriannau cydlosgi gwastraff;

(b) darparu ar gyfer tramgwyddau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â darpariaeth a wnaed o dan y rheoliadau;

(c) darparu ar gyfer cosbau mewn perthynas â'r tramgwyddau hynny;

(d) darparu ar gyfer awdurdodau gorfodi a swyddogaethau'r awdurdodau hynny.

(3) Yn yr adran hon—

mae i "peiriant cydlosgi gwastraff" yr ystyr a roddir i "waste co-incineration plant" yn Erthygl 3(41) o Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig) (Ail-lunio);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

mae i "peiriant llosgi gwastraff" yr ystyr a roddir i "waste incineration plant" yn Erthygl 3(40) o'r Gyfarwyddeb honno;

ystyr "llosgi" ("*incineration*") mewn perthynas â gwastraff, yw—

(a) llosgi gwastraff mewn peiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff, a

(b) unrhyw driniaethau thermol eraill i'r gwastraff cyn ei losgi."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I67** A. 67 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

*Gorfodi*

**68 Sancsiynau sifil**

(1) At ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13) ("RESA 2008"), mae'r tramgwyddau o dan adrannau 34D a 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'u mewnosodir gan adrannau 65 a 66) i'w trin fel pe baent wedi eu cynnwys yn y Ddeddf honno yn union cyn y diwrnod y cafodd RESA 2008 ei phasio.

(2) Mae adran 10 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(3) Yn y teitl, yn lle "gollwng gwastraff ar safle tirlenwi" rhodder "thramgwyddau a grëir gan reoliadau o dan adrannau 9 a 9A".

(4) Yn is-adran (1), ar ôl "9(1)" mewnosoder "neu 9A(1)".

(5) Yn is-adran (2), yn lle "Caiff rheoliadau o dan adran 9(1)" rhodder "Caniateir arfer y pŵer i".

(6) Yn lle is-adran (3) rhodder—

"(3) Ond nid yw adrannau 39(4) a 42(6) o RESA 2008 yn gymwys i'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan adran 9(1) neu 9A(1) yn rhinwedd is-adran (2)."

(7) Yn is-adran (4), yn lle "i ddarpariaeth a wneir o dan reoliadau o dan is-adran (2), neu yn rhinwedd y rheoliadau hynny, fel y maent yn gymwys i ddarpariaeth a wneir" rhodder "pan fo rheoliadau o dan adran 9(1) neu 9A(1) yn gwneud darpariaeth yn rhinwedd is-adran (2) fel y maent yn gymwys pan wneir darpariaeth".

(8) Yn is-adran (6), ar ôl "9(1)" mewnosoder "neu 9A(1) (fel y bo'n briodol)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I68** A. 68 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

*Cyffredinol*

**69 Rheoliadau**

(1) Mae adran 161 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddydau) wedi ei diwygio yn unol ag is-adrannau (2) i (4).

(2) Yn is-adran (1), yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "the Welsh Ministers".

(3) Yn is-adran (2A), yn lle "made solely by the National Assembly for Wales" rhodder "containing regulations made solely by the Welsh Ministers".

(4) Ar ôl is-adran (2A) mewnosoder—

"(2AA) A statutory instrument containing regulations under section 34D or 45AA(10) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.

(2AB) Any other statutory instrument containing regulations made by the Welsh Ministers under this Act is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales."

(5) Yn adran 20(3) o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 (gorchmynion a rheoliadau y mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymeradwyo), ar ôl "9," mewnosoder "9A".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I69** A. 69 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

**70 Mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

Mae Rhan 3 o Atodlen 2 yn cynnwys mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau sy'n ymwneud â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I70** A. 70 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

## RHAN 5

PYSGODFEYDD AR GYFER PYSGOD CREGYN

*Ceisiadau am orchmynion sy'n ymwneud â physgodfeydd*

**71 Ceisiadau am orchmynion sy'n ymwneud â physgodfeydd**

(1) Yn adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 (p. 83) (pŵer i wneud gorchmynion o ran pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

"(2A) In relation to applications to the Welsh Ministers, subsection (2) has effect as if for "prescribed by regulations made by the appropriate Minister" there were substituted "specified by the Welsh Ministers".

(2B) The Welsh Ministers may require a person who applies to them for an order under this section to provide them with such further information as they think necessary to enable them to determine the application."

(2) Nid yw'r diwygiad a wneir gan is-adran (1) yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau sydd wedi eu gwneud i Weinidogion Cymru cyn i'r adran hon ddod i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I71** A. 71 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(c)**

*Diogelu'r amgylchedd morol*

## 72 Gofyniad i gynnwys darpariaethau amgylcheddol mewn gorchmynion sy'n ymwneud â physgodfeydd

(1) Mae Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 5 mewnosoder—

"**5A Orders made by Welsh Ministers: protection of marine environment**

(1) An order made by the Welsh Ministers under section 1 of this Act must contain—

(a) such provision (if any) as the Welsh Ministers consider appropriate for the purpose of preventing harm to any European marine site identified in the order, and

(b) such other provision (if any) as they consider appropriate for the purpose of protecting the marine environment.

(2) For the purposes of this section, "the marine environment" includes—

(a) the natural beauty or amenity of marine or coastal areas (including their geological or physiographical features);

(b) features of archaeological or historic interest in such areas;

(c) flora and fauna which are dependent on, or associated with, a marine or coastal environment."

(3) Yn adran 3, yn is-adran (2), yn lle "section 4" rhodder "sections 4 and 5A".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I72** A. 72 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(c)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**73 Pŵer i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer diogelu safleoedd morol Ewropeaidd**

Yn Neddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967, ar ôl adran 5A (fel y'i mewnosodir gan adran 72) mewnosoder—

"**5B European marine sites: power of Welsh Ministers to serve site protection notice**

(1) If it appears to the Welsh Ministers that harm to a European marine site has occurred, or is likely to occur, as a result of any activity—

(a) carried on in the exercise of a right conferred by an order made by them under section 1 of this Act, or

(b) authorised in pursuance of provision made by or under such an order which confers a right of regulating a fishery,

the Welsh Ministers may serve a site protection notice on the grantees of the order.

(2) A site protection notice is a notice which requires the grantees to take steps specified in the notice for the purpose of preventing harm (or further harm) to the European marine site.

(3) The provision that may be made by a site protection notice includes provision prohibiting, restricting or interfering with the exercise of any right conferred by the order.

(4) A site protection notice must—

(a) be in writing,

(b) set out the reasons for giving the notice, and

(c) specify the time by which, or the period for which, the steps specified in the notice must be taken.

(5) The Welsh Ministers must consult the grantees of the order before serving a site protection notice on them, unless it appears to the Welsh Ministers that there is an urgent need to take steps to prevent harm (or further harm) to the European marine site.

(6) The Welsh Ministers may vary or cancel a site protection notice by serving notice of the variation or cancellation on the grantees of the order.

(7) The Welsh Ministers must publish every notice served by them under this section in such manner as they consider appropriate for the purpose of bringing the notice to the attention of persons likely to be affected by it.

(8) Provision under subsection (4)(c) may specify a time after, or a period which ends after, the expiry of the order; and in such a case, references in sections 5C and 5D of this Act to the grantees of the order are, in relation to any time after its expiry, references to the persons who were the grantees immediately before the order expired.

(9) Subsections (2) to (7) of section 5 of this Act apply for the purposes of this section as they apply for the purposes of subsection (1) of that section.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**5C Appeal against site protection notice**

(1) An appeal lies to the First-tier Tribunal against—

(a) a site protection notice;

(b) any provision of a site protection notice;

(c) the variation of a site protection notice;

(d) the refusal of a request for the variation or cancellation of a site protection notice.

(2) An appeal may be brought—

(a) in the case of an order made under section 1 of this Act which confers a right of several fishery, by the grantees of the order;

(b) in the case of such an order which confers a right of regulating a fishery—

(i) by the grantees of the order, or

(ii) by a person authorised to carry on an activity in pursuance of provision made by or under the order who is affected by the site protection notice or variation.

(3) Where an appeal is brought by a person mentioned in subsection (2)(b)(ii), the grantees of the order are entitled to be parties to the appeal.

(4) The First-tier Tribunal may suspend a site protection notice, or a variation of such a notice, pending the determination of an appeal.

(5) On an appeal the Tribunal may confirm, vary or cancel a site protection notice.

(6) If the Tribunal varies or cancels the notice, it may order the Welsh Ministers to pay compensation to any other party to the appeal for loss or damage suffered by that party as a result of the notice.

**5D Failure to comply with site protection notice**

(1) If the grantees of an order made under section 1 of this Act fail to comply with a site protection notice, the Welsh Ministers may themselves do anything that could be done by the grantees for the purpose of complying with the notice.

(2) If the Welsh Ministers incur expenses in doing anything under subsection (1), they may recover those expenses from the grantees as a debt."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I73** A. 73 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(c)**

**74 Pŵer i amrywio neu ddirymu gorchmynion i ddiogelu safleoedd morol Ewropeaidd**

(1) Mae Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 5D (fel y'i mewnosodir gan adran 73) mewnosoder—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### "5E European marine sites: power of Welsh Ministers to vary or revoke order under section 1

(1) This section applies where—
- (a) the Welsh Ministers have served a site protection notice on the grantees of an order made under section 1 of this Act,
- (b) the notice has not been cancelled under section 5B(6) or 5C(5) of this Act, and
- (c) no appeal under section 5C of this Act is pending.

(2) The Welsh Ministers may vary or revoke the order to reflect the effect of the site protection notice.

(3) Before making an order by virtue of this section, the Welsh Ministers must consult—
- (a) any persons who are entitled to a right of several fishery or a right of regulating a fishery in any part of the area to which the order relates, and
- (b) any other persons the Welsh Ministers think are likely to be interested in the order or affected by it.

(4) For the purposes of subsection (1)(c), an appeal under section 5C is pending if—
- (a) an appeal under that section (or a further appeal) has been brought and has not been determined or withdrawn, or
- (b) an appeal under that section (or a further appeal) has not been brought but the period for bringing such an appeal is still running."

(3) Yn adran 1 (pŵer i wneud gorchmynion o ran pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn), yn is-adran (8), ar ôl "subsection (10) below" mewnosoder "or by virtue of section 5E of this Act".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I74** A. 74 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(c)**

## 75 Darpariaeth atodol

Yn Neddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967, ar ôl adran 5E (fel y'i mewnosodir gan adran 74) mewnosoder—

### "5F Protection of marine environment: supplementary provision

(1) In sections 5A to 5E of this Act—

"European marine site" has the same meaning as in the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010 (S.I. 2010/490) (see regulation 8);

"the grantees", in relation to a right of several fishery, means the persons for the time being entitled to that right;

"harm", in relation to a European marine site, means—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) an adverse effect on the integrity of the site,

(b) the deterioration of a relevant natural habitat or of the habitat of a relevant species, or

(c) the disturbance of a relevant species, in so far as the disturbance could be significant in relation to the objectives of the Habitats Directive.

(2) For the purposes of the definition of "harm" in subsection (1)—

a "relevant" natural habitat or species is one for which the site in question has been designated or classified as a European marine site;

"the Habitats Directive" means Council Directive 92/43/EEC on the conservation of natural habitats and of wild fauna and flora.

(3) Sections 5A to 5E of this Act do not apply in relation to an order made under section 1 of this Act before the coming into force of Part 5 of the Environment (Wales) Act 2016."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I75** A. 75 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(c)**

## RHAN 6

TRWYDDEDU MOROL

### 76 Cyngor a chymorth mewn perthynas â thrwyddedu morol

Yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), ar ôl adran 67 mewnosoder—

**"67A Advice and other assistance from the Welsh Ministers**

(1) This section applies where the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority.

(2) The licensing authority may provide advice or other assistance to any person who requests it in connection with—

(a) an application which the person proposes to make to the licensing authority for a marine licence, or

(b) any other matter in respect of which the licensing authority exercises functions under this Part.

(3) The licensing authority may charge fees in respect of the reasonable costs incurred by it in connection with the provision of advice or other assistance under subsection (2)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I76** A. 76 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(c)**

**I77** A. 76 mewn grym ar 1.4.2017 gan O.S. 2017/504, **ergl. 2**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## 77 Ffioedd am fonitro, amrywio etc. drwyddedau morol

(1) Yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ar ôl adran 72 mewnosoder—

### "72A Further fees chargeable where the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority

(1) This section applies where the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority in relation to a marine licence granted under this Part.

(2) The licensing authority may require the licensee to pay a fee for—

(a) monitoring an activity authorised by the licence,

(b) assessing and interpreting the results of any monitoring of an activity authorised by the licence, or

(c) dealing with an application by the licensee for a variation, suspension, revocation or transfer of the licence under section 72.

(3) In subsection (2) "monitoring", in relation to a licence, means monitoring carried out for the purposes of enabling the licensing authority to determine—

(a) the environmental, economic or social consequences of any activity authorised by the licence, or

(b) whether the licensee is complying with any conditions attached to that licence.

(4) The fees that may be charged under subsection (2) are to be determined by or in accordance with regulations made by the licensing authority.

(5) Regulations under subsection (4) may provide for different fees for different cases.

(6) If the licensing authority carries out any investigation, examination or test which in its opinion is necessary or expedient to enable it to determine an application by a licensee for a variation, suspension, revocation or transfer of a licence under section 72, the authority may require the licensee to pay a fee towards the reasonable expenses of that investigation, examination or test.

(7) If a licensee fails to comply with a requirement to pay a fee charged under subsection (2)(a) or (b), the licensing authority may by notice vary, suspend or revoke the licence.

(8) The suspension of a licence under subsection (7) continues in effect until the fee is paid (but this is subject to any provision made under section 108(3)(b) in relation to notices under that subsection).

(9) If a licensee who has applied for a variation, suspension, revocation or transfer of a licence under section 72 fails to comply with a requirement to pay a fee charged under this section in connection with that application, the licensing authority may—

(a) refuse to proceed with the application, or

(b) refuse to proceed with it until the failure is remedied."

(2) Mae'r diwygiad a wneir gan is-adran (1) yn cael effaith mewn perthynas â thrwyddedau morol pa bryd bynnag y'u rhoddir.

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I78** A. 77 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(c)**
**I79** A. 77 mewn grym ar 24.2.2017 at ddibenion penodedig gan O.S. 2017/152, **ergl. 2(a)**
**I80** A. 77 mewn grym ar 1.4.2017 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2017/504, **ergl. 2**

## 78 Darpariaeth bellach ynghylch talu ffioedd

Yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ar ôl adran 107 mewnosoder—

### "107A Deposits on account of fees payable to the Welsh Ministers

(1) This section applies where the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority.

(2) Where a person is required to pay a fee to the licensing authority under this Part, the licensing authority may require the person to pay a deposit on account of the fee.

(3) The amount that a person may be required to pay under subsection (2) is to be determined by or in accordance with regulations made by the licensing authority.

(4) If a licensee fails to comply with a requirement to pay a deposit charged under subsection (2) on account of a fee charged under section 72A(2)(a) or (b), the licensing authority may by notice vary, suspend or revoke the licence.

(5) The suspension of a licence under subsection (4) continues in effect until the deposit is paid (but this is subject to any provision made under section 108(3)(b) in relation to notices under that subsection).

(6) If a person who has applied for a licence under section 67 or for a variation, suspension, revocation or transfer of a licence under section 72 fails to comply with a requirement to pay a deposit charged under subsection (2) in connection with that application, the licensing authority may—
 (a) refuse to proceed with the application, or
 (b) refuse to proceed with it until the failure is remedied.

### 107B Supplementary provision about fees payable to the Welsh Ministers

(1) This section applies where the Welsh Ministers are the appropriate licensing authority.

(2) When making provision under section 67(2) or 72A(4) about fees payable in respect of a type of application to the licensing authority or in respect of an activity of the licensing authority, the licensing authority must decide what provision to make by reference to the expected costs of dealing with that type of application or of carrying out that activity.

(3) The licensing authority may require a fee charged by it under this Part to be payable in advance of the activity to which the fee relates being carried out.

(4) The licensing authority may waive or reduce a fee.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(5) The licensing authority may by regulations make provision about how and when a fee or deposit charged by it under this Part is to be paid.

(6) A fee or deposit charged under this Part may be recovered by the licensing authority as a civil debt (in addition to any other action that may be taken by the licensing authority).”

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I81** A. 78 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(c)**
**I82** A. 78 mewn grym ar 24.2.2017 at ddibenion penodedig gan O.S. 2017/152, **ergl. 2(b)**
**I83** A. 78 mewn grym ar 1.4.2017 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2017/504, **ergl. 2**

## 79 Apelio yn erbyn amrywio etc. drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal

Yn adran 108 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (apelau yn erbyn hysbysiadau), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) The Welsh Ministers must by regulations make provision for any person to whom a notice is issued under section 72A(7) or 107A(4) to appeal against that notice.”

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I84** A. 79 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(c)**
**I85** A. 79 mewn grym ar 24.2.2017 at ddibenion penodedig gan O.S. 2017/152, **ergl. 2(c)**
**I86** A. 79 mewn grym ar 1.4.2017 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2017/504, **ergl. 2**

## 80 Eithriadau rhag pŵer i ddirprwyo swyddogaethau awdurdod trwyddedu

Yn adran 98(6) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (swyddogaethau a eithrir rhag pŵer i ddirprwyo)—

(a) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

“(ca) section 72A(4) (making regulations regarding fees for monitoring, variation etc of licences for which the Welsh Ministers are the licensing authority);”;

(b) ar ôl paragraff (h) mewnosoder—

“(ha) section 107A(3) (making regulations regarding deposits payable on account of fees where the Welsh Ministers are the licensing authority);

(hb) section 107B(5) (making regulations regarding payment of fees and deposits where the Welsh Ministers are the licensing authority);”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I87** A. 80 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(c)**
**I88** A. 80 mewn grym ar 1.4.2017 gan O.S. 2017/504, **ergl. 2**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## RHAN 7

AMRYWIOL

*Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol*

### 81 Sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

(1) Yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29), cyn adran 27 (a'r croesbennawd italig o'i blaen) mewnosoder—

*"4A. Flood and Coastal Erosion Committee for Wales*

**26B Establishment and functions**

(1) There is established a committee to be known as the Flood and Coastal Erosion Committee or Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

(2) The purpose of the Committee is to advise the Welsh Ministers on matters relating to flood and coastal erosion risk management.

(3) The Welsh Ministers may by regulations confer or impose additional functions on the Committee for any purpose connected with flood or coastal erosion risk management in Wales.

**26C Constitution**

(1) The Welsh Ministers may by regulations make provision about the membership of the Flood and Coastal Erosion Committee, including—
- (a) the number of members,
- (b) conditions of eligibility for appointment, and
- (c) the method of selection and appointment of members (including who is to appoint them).

(2) The Welsh Ministers may by regulations make provision about the proceedings of the Committee, including—
- (a) quorum, and
- (b) the nature and extent of a majority required for specified purposes.

**26D Payments relating to members**

(1) The Welsh Ministers may by regulations make provision for the payment to or in respect of persons who chair or have chaired the Flood and Coastal Erosion Committee of—
- (a) remuneration;
- (b) allowances;
- (c) sums by way of or in respect of pension;
- (d) compensation for loss of office.

(2) The Welsh Ministers may by regulations make provision for the payment of allowances to members of the Committee.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Regulations under this section—
(a) must specify who is to make any payment for which the regulations make provision;
(b) may make provision about the circumstances in which a payment is to be made;
(c) may determine, or provide for the determination of, the amount or maximum amount of a payment."

(2) Mae'r Pwyllgor Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol a sefydlwyd o dan adran 22(1)(c) o Ddeddf Rheoli Lifogydd a Dŵr 2010 wedi ei ddiddymu.

(3) Mae Rhan 4 o Atodlen 2 yn darparu ar gyfer mân ddiwygiadau, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau sy'n ymwneud â'r adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I89** A. 81 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**
**I90** A. 81 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

*Draenio tir*

### 82 Diddymu gofynion i gyhoeddi mewn papurau newydd lleol etc.

(1) Yn Neddf Draenio Tir 1991 (p. 59), hepgorer—
adran 2(2A);
adran 3(4A);
adran 38(6A);
adran 39(5A);
adran 48(3A);
adran 58(3A);
paragraff 1(1A) o Atodlen 5.

(2) Yn Atodlen 9 i Ddeddf Dŵr 2014 (p. 21), hepgorer paragraffau 2(3), 3(3), 4(3), 5(3), 6(3), 7(3) ac 8(3).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I91** A. 82 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(d)**

PROSPECTIVE

### 83 Prisio tir anamaethyddol er mwyn dosrannu costau draenio

(1) Mae Deddf Draenio Tir 1991 (p. 59) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 37 (dosrannu costau byrddau draenio mewnol)—
(a) yn is-adran (5), ar ôl "this section" mewnosoder "as it applies in relation to England,";

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) For the purposes of this section as it applies in relation to Wales, the value of other land in an internal drainage district is to be determined in accordance with regulations made by the Welsh Ministers.

(5B) The regulations may, among other things, make provision—

(a) about methods to be applied, or factors to be taken into account, in determining the value of land;

(b) for the value of land to be determined on the basis of estimates, assumptions or averages;

(c) for the value of land to be determined for the purposes of this section by reference to the value shown for the time being in a list or register prepared for the purposes of another enactment;

(d) for determining the value of land which is only partly within the internal drainage district in question.

(5C) The regulations may—

(a) make different provision for different cases, including different provision in relation to different circumstances or descriptions of land;

(b) make such incidental, supplementary, consequential, transitional or saving provision as the Welsh Ministers consider appropriate.

(5D) Regulations may not be made under subsection (5A) unless a draft of the instrument containing the regulations has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales."

(3) Yn adran 65(2) (rheoliadau), ar ôl "Subject to" mewnosoder "section 37 (5D) and".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I92** A. 83 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(e)**

### 84 Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn ardollau arbennig

(1) Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 75 (ardollau arbennig), ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

"(7A) Regulations made by the Welsh Ministers may include provision for appeals to be made to the Welsh Ministers from special levies issued to meet expenses incurred in the exercise of functions relating to land drainage."

(3) Yn adran 138 (adolygiad barnwrol)—

(a) yn is-adran (2)(f), ar ôl "above" mewnosoder "(subject to subsection (4))";

(b) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(4) Subsection (1) does not affect appeals made by virtue of provision made in regulations under section 75(7A)".

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(4) Yn adran 143 (gorchmynion a rheoliadau)—

(a) yn is-adran (3), ar ôl "Parliament" mewnosoder "or, in the case of an order or regulations made by the Welsh Ministers, of the National Assembly for Wales";

(b) hepgorer is-adran (4A).

(5) Yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26), hepgorer paragraff 24(4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I93** A. 84 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(e)**

## 85 Pŵer mynediad: cydymffurfio â gorchymyn i lanhau ffosydd etc.

(1) Yn adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991 (p. 59) (effeithiau gorchmynion sy'n ei gwneud yn ofynnol glanhau ffosydd etc.), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) Where, in the case of an order made under section 28 by the Agricultural Land Tribunal in relation to land in Wales, the Welsh Ministers, at any time after the end of three months or such longer period as may be specified in the order, have reasonable grounds for believing that any work specified in the order has not been carried out—

(a) the Welsh Ministers, or

(b) any person authorised by them, either generally or in a particular case,

may, in order to ascertain whether the work has been carried out, enter any land which it is necessary to enter for that purpose."

(2) Mae'r diwygiad a wneir gan is-adran (1) yn cael effaith mewn perthynas â gorchmynion pa bryd bynnag y'u gwnaed.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I94** A. 85 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(f)**

*Is-ddeddfau*

## 86 Is-ddeddfau a wneir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru

Mae Rhan 5 o Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau sy'n ymwneud ag is-ddeddfau a wneir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I95** A. 86 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(g)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amglychedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## RHAN 8

CYFFREDINOL

### 87 Dehongli

Yn y Ddeddf hon—

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad a gynhwysir yn unrhyw un o'r canlynol (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir)—

(a) Deddf Seneddol;
(b) Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
(c) is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p. 30) (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I96** A. 87 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(1)**

### 88 Dod i rym

(1) Mae'r Rhan hon yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1 (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol);
(b) Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd);
(c) Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn);
(d) adran 82 (diddymu gofynion i gyhoeddi);
(e) adran 84 (apelau yn erbyn ardollau draenio arbennig);
(f) adran 85 (pŵer mynediad);
(g) adran 86 (is-ddeddfau).

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol—

(a) Rhan 3 (codi taliadau am fagiau siopa);
(b) Rhan 4 (casglu a gwaredu gwastraff);
(c) Rhan 6 (trwyddedu morol);
(d) adran 81 (pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol);
(e) adran 83 (prisio tir anamaethyddol).

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) pennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol;
(b) gwneud y ddarpariaeth drosiannol neu'r ddarpariaeth arbed honno mewn cysylltiad â dod i rym ddarpariaeth o fewn y Ddeddf hon y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I97** A. 88 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(1)**

## 89 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I98** A. 89 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(1)**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

PROSPECTIVE

## ATODLEN 1

(cyflwynir gan adran 61)

## CODI TALIADAU AM FAGIAU SIOPA: SANCSIYNAU SIFIL

*Sancsiynau sifil*

1 (1) Caiff rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth ynghylch sancsiynau sifil am dorri'r rheoliadau.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person yn torri rheoliadau bagiau siopa os yw'r person, o dan yr amgylchiadau hynny y gellir eu pennu—

(a) yn methu â chydymffurfio â gofyniad a wneir gan y rheoliadau hyn neu oddi tanynt, neu

(b) yn rhwystro gweinyddwr neu'n methu â rhoi cymorth iddo.

(3) Yn yr Atodlen hon, ystyr "sancsiwn sifil" yw—

(a) cosb ariannol benodedig, neu

(b) gofyniad yn ôl disgresiwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I99** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cosbau ariannol penodedig*

2 (1) Caiff rheoliadau bagiau siopa roi'r pŵer i weinyddwr i osod, drwy hysbysiad, gosb ariannol benodedig ar berson sy'n torri'r rheoliadau.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ond rhoi pŵer o'r fath mewn perthynas ag achos pan fo'r gweinyddwr wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd fod y toriad wedi digwydd.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, ystyr "cosb ariannol benodedig" yw gofyniad i dalu cosb i weinyddwr o swm a bennir yn y rheoliadau neu a benderfynir yn unol â hwy.

(4) Ni chaiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer gosod cosb ariannol benodedig o fwy na £5,000.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I100** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cosbau ariannol penodedig: y weithdrefn*

3 (1) Rhaid i reoliadau bagiau siopa sy'n gwneud darpariaeth o dan baragraff 2 sicrhau—

(a) pan fo gweinyddwr yn bwriadu gosod cosb ariannol benodedig ar berson, bod rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a fwriedir ("hysbysiad o fwriad") sy'n cydymffurfio ag is-baragraff (2),

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) bod yr hysbysiad o fwriad hefyd yn cynnig y cyfle i'r person ryddhau ei hun rhag atebolrwydd am y gosb ariannol benodedig drwy dalu swm penodedig (y mae'n rhaid iddo fod yn llai na swm y gosb neu'n gyfwerth ag ef),

(c) os nad yw'r person yn rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd yn y fath fodd—

(i) y caiff y person wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r gweinyddwr mewn perthynas â'r gosb ariannol benodedig y bwriedir ei gosod, a

(ii) ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau bod rhaid i'r gweinyddwr benderfynu a yw am osod y gosb ariannol benodedig ai peidio,

(d) pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod y gosb ariannol benodedig, bod yr hysbysiad sy'n ei gosod ("yr hysbysiad terfynol") yn cydymffurfio ag is-baragraff (4), ac

(e) y caiff y person y gosodir cosb ariannol benodedig arno apelio yn erbyn y penderfyniad i'w gosod.

(2) Er mwyn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn, rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros y bwriad i osod y gosb ariannol benodedig,

(b) effaith talu'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(b),

(c) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau,

(d) o dan ba amgylchiadau na chaiff y gweinyddwr osod y gosb ariannol benodedig,

(e) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn hwy na'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad, y caniateir rhyddhau rhag atebolrwydd i'r gosb ariannol benodedig, ac

(f) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn hwy na'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad, y caniateir gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau.

(3) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(c)(ii) gynnwys darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau hynny pan all y gweinyddwr benderfynu peidio â gosod cosb ariannol benodedig.

(4) Er mwyn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn rhaid i'r hysbysiad terfynol y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(d) gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros osod y gosb,

(b) sut y gellir talu,

(c) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid talu,

(d) unrhyw ddisgowntiau am dalu'n gynnar neu gosbau am dalu'n hwyr,

(e) hawliau i apelio, ac

(f) canlyniadau peidio â thalu.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(e) sicrhau bod yr hyn y caiff person apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddwr ar ei sail yn cynnwys y canlynol—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn un afresymol.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I101** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Gofynion yn ôl disgresiwn*

4 (1) Caiff rheoliadau bagiau siopa roi'r pŵer i weinyddwr i osod, drwy hysbysiad, un gofyniad yn ôl disgresiwn neu ragor ar berson sy'n torri'r rheoliadau.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ond rhoi pŵer o'r fath mewn perthynas ag achos pan fo'r gweinyddwr wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd bod y toriad wedi digwydd.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, ystyr "gofyniad yn ôl disgresiwn" yw—

(a) gofyniad i dalu i weinyddwr gosb ariannol o'r swm hwnnw y caiff y gweinyddwr benderfynu arno, neu

(b) gofyniad i gymryd y camau hynny y caiff gweinyddwr eu pennu, o fewn y cyfnod hwnnw y caiff y gweinyddwr ei bennu, er mwyn sicrhau nad yw'r toriad yn parhau neu'n digwydd eto.

(4) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cosb ariannol amrywiadwy" ("*variable monetary penalty*") yw gofyniad y cyfeirir ato yn is-baragraff (3)(a), ac

ystyr "gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol" ("*non-monetary discretionary requirement*") yw gofyniad y cyfeirir ato yn is-baragraff (3)(b).

(5) Rhaid i reoliadau bagiau siopa, mewn perthynas â phob math o doriad o'r rheoliadau y caniateir gosod cosb ariannol amrywiadwy mewn perthynas ag ef—

(a) pennu uchafswm y gosb y caniateir ei gosod am doriad o'r math hwnnw, neu

(b) darparu i'r uchafswm hwnnw gael ei benderfynu yn unol â'r rheoliadau.

(6) Ni chaiff y rheoliadau ganiatáu gosod gofynion yn ôl disgresiwn ar berson ar fwy nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I102** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Gofynion yn ôl disgresiwn: y weithdrefn*

5 (1) Rhaid i reoliadau bagiau siopa sy'n gwneud darpariaeth o dan baragraff 4 sicrhau—

(a) pan fo gweinyddwr yn bwriadu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn ar berson, bod rhaid i'r gweinyddwr gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad o'r hyn a fwriedir ("hysbysiad o fwriad") sy'n cydymffurfio ag is-baragraff (2),

(b) y caiff y person hwnnw wneud sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r gweinyddwr mewn perthynas â'r bwriad i osod y gofyniad yn ôl disgresiwn,

(c) ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau o'r fath, bod rhaid i'r gweinyddwr benderfynu a yw am—

(i) gosod y gofyniad yn ôl disgresiwn, gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(ii) gosod unrhyw ofyniad yn ôl disgresiwn arall y mae gan y gweinyddwr bŵer i'w osod o dan baragraff 4,

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(d) pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn, bod yr hysbysiad sy'n ei osod (yr "hysbysiad terfynol") yn cydymffurfio ag is-baragraff (4), ac

(e) y caiff y person y gosodir gofyniad yn ôl disgresiwn arno apelio yn erbyn y penderfyniad i'w osod.

(2) Er mwyn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn, rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros y cynnig i osod y gofyniad yn ôl disgresiwn,

(b) yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau,

(c) o dan ba amgylchiadau na chaiff y gweinyddwr osod y gofyniad yn ôl disgresiwn,

(d) o fewn pa gyfnod, na chaiff fod yn llai na'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y ceir yr hysbysiad o fwriad, y caniateir gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau.

(3) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(c) gynnwys darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau hynny pan na chaniateir i'r gweinyddwr benderfynu gosod cosb ariannol benodedig.

(4) Er mwyn cydymffurfio â'r is-baragraff hwn, rhaid i'r hysbysiad terfynol y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(d) gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) y seiliau dros osod y gofyniad yn ôl disgresiwn,

(b) pan fo'r gofyniad yn ôl disgresiwn yn gosb ariannol amrywiadwy—

(i) sut y gellir talu,

(ii) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid talu, a

(iii) unrhyw ddisgowntiau am dalu'n gynnar neu gosbau am dalu'n hwyr,

(c) hawliau i apelio, a

(d) canlyniadau methu â chydymffurfio.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(e) sicrhau bod yr hyn y caiff person apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddwr ar ei sail yn cynnwys y canlynol—

(a) bod y penderfyniad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, bod swm y gosb yn afresymol;

(d) yn achos gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol, bod natur y gofyniad yn afresymol;

(e) bod y penderfyniad yn un afresymol am unrhyw reswm arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I103** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Gofynion yn ôl disgresiwn: gorfodi*

6 (1) Os yw rheoliadau bagiau siopa yn gwneud darpariaeth o dan baragraff 4, gallant roi'r pŵer i weinyddwr i'w gwneud yn ofynnol i berson dalu cosb ariannol ("cosb am beidio â chydymffurfio") i'r gweinyddwr os yw'r person yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol a osodir ar y person hwnnw.

(2) Caiff y rheoliadau—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) pennu swm y gosb am beidio â chydymffurfio neu ddarparu i'r swm hwnnw gael ei benderfynu yn unol â'r rheoliadau, neu

(b) darparu i'r swm gael ei benderfynu gan y gweinyddwr neu mewn rhyw fodd arall.

(3) Os yw rheoliadau bagiau siopa yn gwneud darpariaeth o fewn is-baragraff (2)(b), rhaid iddynt, mewn perthynas â phob math o fethiant y caniateir gosod cosb am beidio â chydymffurfio mewn perthynas ag ef—

(a) pennu uchafswm y gosb yn caniateir ei gosod am fethiant o'r math hwnnw, neu

(b) darparu i'r uchafswm hwnnw gael ei benderfynu yn unol â'r rheoliadau.

(4) Rhaid i reoliadau bagiau siopa sy'n gwneud darpariaeth o dan is-baragraff (1) sicrhau—

(a) bod y gosb am beidio â chydymffurfio yn cael ei gosod drwy hysbysiad a gyflwynir gan y gweinyddwr, a

(b) y caiff y person y gosodir y gosb am beidio â chydymffurfio arno apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol â pharagraff (b) o is-baragraff (4) sicrhau bod yr hyn y caiff person apelio yn erbyn penderfyniad gweinyddwr ar ei sail yn cynnwys y canlynol—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad yn seiliedig ar wall ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm (gan gynnwys, mewn achos pan fo swm y gosb am beidio â chydymffurfio wedi ei benderfynu gan y gweinyddwr, bod y swm yn afresymol).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I104** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cyfuniad o sancsiynau*

7 (1) Ni chaiff rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth o dan baragraffau 2 a 4 sy'n rhoi pwerau i weinyddwr mewn perthynas â'r un math o doriad o'r rheoliadau oni chydymffurfir â'r gofynion a ganlyn.

(2) Rhaid i'r rheoliadau sicrhau na chaiff y gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo gofyniad yn ôl disgresiwn wedi ei osod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad.

(3) Rhaid i'r rheoliadau sicrhau na chaiff y gweinyddwr gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 5(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo—

(a) cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad, neu

(b) y person wedi rhyddhau ei hun rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r toriad hwnnw yn unol â pharagraff 3(1)(b).

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I105** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cosbau ariannol*

8 (1) Os yw rheoliadau bagiau siopa yn rhoi pŵer i weinyddwr i'w gwneud yn ofynnol i berson dalu cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy neu gosb am beidio â chydymffurfio, gallant gynnwys darpariaeth—

(a) ar gyfer disgowntiau am dalu'n gynnar;

(b) ar gyfer talu llog neu gosbau ariannol eraill am dalu'r gosb yn hwyr, y llog hwnnw neu'r cosbau ariannol eraill hynny nad ydynt gyda'i gilydd i fod yn fwy na swm y gosb honno;

(c) ar gyfer gorfodi'r gosb.

(2) Caiff darpariaeth o dan is-baragraff (1)(c) gynnwys—

(a) darpariaeth i'r gweinyddwr adennill cosb, ac unrhyw log neu gosb ariannol arall am dalu'n hwyr, fel dyled sifil;

(b) darpariaeth i'r gosb, ac unrhyw log neu gosb ariannol arall am dalu'n hwyr fod yn adenilladwy, ar orchymyn gan lys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I106** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Adennill costau*

9 (1) Os yw rheoliadau bagiau siopa yn gwneud darpariaeth o dan baragraff 4, gallant roi'r pŵer i weinyddwr i'w gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i berson y gosodir gofyniad yn ôl disgresiwn arno i dalu'r costau yr aed iddynt gan y gweinyddwr mewn perthynas â gosod y gofyniad yn ôl disgresiwn hyd at amser ei osod.

(2) Yn is-baragraff (1), mae'r cyfeiriad at gostau yn cynnwys (ymysg pethau eraill)—

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(3) Rhaid i reoliadau bagiau siopa sy'n gwneud darpariaeth o dan y paragraff hwn sicrhau, mewn unrhyw achos pan gyflwynir hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol talu costau—

(a) bod yr hysbysiad yn pennu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu;

(b) y gallai fod yn ofynnol i'r gweinyddwr ddarparu dadansoddiad manwl o'r swm hwnnw;

(c) nad yw'r person y mae'n ofynnol iddo dalu costau yn atebol i dalu unrhyw gostau y mae'r person hwnnw'n dangos yr aed iddynt yn ddiangen;

(d) y caiff y person y mae'n ofynnol iddo dalu costau apelio yn erbyn—

(i) penderfyniad y gweinyddwr i osod y gofyniad i dalu costau;

(ii) penderfyniad y gweinyddwr o ran swm y costau hynny.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(4) Caiff darpariaeth o dan y paragraff hwn gynnwys y ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 8(1)(b) ac (c) a (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I107** Atod. 1 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Apelau*

10 (1) Ni chaiff rheoliadau bagiau siopa ddarparu ar gyfer gwneud apêl ac eithrio i'r canlynol—

(a) y Tribiwnlys Haen Gyntaf, neu

(b) tribiwnlys arall a grëir o dan ddeddfiad.

(2) Yn is-baragraff (1)(b), nid yw "tribiwnlys" yn cynnwys llys barn arferol.

(3) Os yw'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer apêl mewn perthynas â gosod unrhyw ofyniad neu gyflwyno unrhyw hysbysiad, cânt gynnwys—

(a) darpariaeth sy'n atal dros dro y gofyniad neu'r hysbysiad tra disgwylir dyfarniad yr apêl;

(b) darpariaeth ynghylch pwerau'r tribiwnlys y gwneir yr apêl iddo;

(c) darpariaeth ynghylch sut y mae unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â phenderfyniad y tribiwnlys hwnnw i gael ei adennill.

(4) Mae'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (3)(b) yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi i'r tribiwnlys y gwneir yr apêl iddo y pŵer i wneud y canlynol—

(a) tynnu'r gofyniad neu'r hysbysiad yn ôl;

(b) cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(c) cymryd y camau hynny y gallai'r gweinyddwr eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith a roes fod i'r gofyniad neu'r hysbysiad;

(d) dychwelyd y penderfyniad ai cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad ai peidio, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl at y gweinyddwr;

(e) dyfarnu costau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I108** Atod. 1 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cyhoeddusrwydd ar gyfer gosod sancsiynau sifil*

11 (1) Caiff rheoliadau bagiau siopa roi'r pŵer i weinyddwr roi hysbysiad cyhoeddusrwydd i berson y gosodwyd sancsiwn sifil arno yn unol â'r rheoliadau.

(2) Ystyr "hysbysiad cyhoeddusrwydd" yw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person roi cyhoeddusrwydd i—

(a) y ffaith y gosodwyd y sancsiwn sifil, a

(b) yr wybodaeth arall honno a all gael ei phennu yn y rheoliadau,

yn y dull hwnnw a all gael ei bennu yn yr hysbysiad.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Caiff y rheoliadau ddarparu bod hysbysiad cyhoeddusrwydd—

(a) yn pennu'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad, a

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person y rhoddir yr hysbysiad iddo ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio i weinyddwr o fewn yr amser hwnnw y caniateir ei bennu yn yr hysbysiad.

(4) Caiff y rheoliadau ddarparu, os yw person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cyhoeddusrwydd, y caiff gweinyddwr—

(a) rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth y mae'n ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd iddi gan yr hysbysiad, a

(b) adennill y costau o wneud hynny oddi wrth y person hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I109** Atod. 1 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Personau sy'n atebol i sancsiynau sifil*

12 (1) Caiff rheoliadau bagiau siopa wneud darpariaeth ynghylch y personau sy'n atebol i sancsiynau sifil o dan y rheoliadau.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd y paragraff hwn yn cynnwys darpariaeth—

(a) i swyddogion corff corfforaethol fod yn atebol yn y modd hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol ei hun, a

(b) i'r partneriaid o fewn partneriaeth fod yn atebol yn ogystal â'r bartneriaeth ei hun,

o dan yr amgylchiadau hynny a all gael eu pennu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I110** Atod. 1 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Canllawiau ynghylch defnyddio pwerau i osod sancsiynau sifil ac adennill costau*

13 (1) Pan fo rheoliadau bagiau siopa yn rhoi'r pŵer i weinyddwr osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thoriad o'r rheoliadau, rhaid iddynt sicrhau—

(a) bod rhaid i'r gweinyddwr gyhoeddi canllawiau ynghylch defnydd y gweinyddwr o'r sancsiwn sifil,

(b) bod rhaid i'r canllawiau gynnwys yr wybodaeth berthnasol,

(c) bod rhaid i'r gweinyddwr ddiwygio'r canllawiau pan fo'n briodol,

(d) bod rhaid i'r gweinyddwr ymgynghori â'r personau hynny y caiff y rheoliadau eu pennu cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau neu ganllawiau diwygiedig, ac

(e) bod rhaid i'r gweinyddwr roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth arfer swyddogaethau'r gweinyddwr.

(2) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati yn is-baragraff (1)(b) yw gwybodaeth ynghylch—

**Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r gosb yn debygol o gael ei gosod,
(b) o dan ba amgylchiadau na chaniateir ei gosod,
(c) swm y gosb,
(d) sut y gall atebolrwydd am y gosb gael ei ryddhau ac effaith rhyddhad, ac
(e) hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau i apelio.

(3) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â gofyniad yn ôl disgresiwn, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati yn is-baragraff (1)(b) yw gwybodaeth ynghylch—
(a) o dan ba amgylchiadau y mae'r gofyniad yn debygol o gael ei osod,
(b) o dan ba amgylchiadau na chaniateir ei osod,
(c) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, y materion y mae'r gweinyddwr yn debygol o'u hystyried wrth ddyfarnu swm y gosb (gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, unrhyw ddisgowntiau am adrodd yn wirfoddol am beidio â chydymffurfio), a
(d) hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau i apelio.

(4) Os yw rheoliadau bagiau siopa yn gwneud darpariaeth o dan baragraff 9, rhaid iddynt sicrhau ei bod yn ofynnol i'r gweinyddwr gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y bydd y gweinyddwr yn arfer y pŵer a roddir gan y ddarpariaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I111** Atod. 1 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cyhoeddi camau gorfodi*

14 (1) Pan fo rheoliadau bagiau siopa yn rhoi'r pŵer i weinyddwr osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thoriad o'r rheoliadau, rhaid iddynt sicrhau bod rhaid i'r gweinyddwr gyhoeddi adroddiadau o bryd i'w gilydd sy'n pennu—
(a) yr achosion y gosodwyd sancsiwn sifil ynddynt, a
(b) pan fo'r sancsiwn sifil yn gosb ariannol benodedig, yr achosion y rhyddhawyd atebolrwydd rhag cosb ynddynt yn unol â pharagraff 3(1)(b).

(2) Yn is-baragraff (1)(a), nid yw'r cyfeiriad at achosion y gosodwyd sancsiwn sifil ynddynt yn cynnwys achosion pan fo'r sancsiwn wedi ei osod ond wedi ei wrthdroi ar apêl.

(3) Nid oes angen i'r rheoliadau sicrhau'r canlyniad yn is-adran (1) mewn achosion pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I112** Atod. 1 para. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddiol*

15 Ni chaiff rheoliadau bagiau siopa roi'r pŵer i weinyddwr osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thoriad o'r rheoliadau oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y bydd y gweinyddwr yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) y dylid cynnal gweithgareddau rheoleiddiol mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson;
(b) y dylid targedu gweithgareddau rheoleiddiol yn unig ar achosion y mae angen gweithredu arnynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I113** Atod. 1 para. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Adolygu*

16 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu gweithrediad unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau bagiau siopa sy'n rhoi'r pŵer i weinyddwr osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thoriad o'r rheoliadau.

(2) Rhaid i'r adolygiad cyntaf ddigwydd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl 1 Hydref 2017; a rhaid i bob adolygiad dilynol ddigwydd cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad blaenorol.

(3) Rhaid i adolygiad o dan y paragraff hwn ystyried yn benodol a yw'r ddarpariaeth wedi cyflawni ei amcanion mewn modd effeithlon ac effeithiol.

(4) Wrth gynnal adolygiad o dan y paragraff hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—
(a) cyhoeddi canlyniadau adolygiad o dan y paragraff hwn, a
(b) gosod copi o'r adolygiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I114** Atod. 1 para. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Atal dros dro*

17 (1) Pan fo rheoliadau bagiau siopa yn rhoi'r pŵer i weinyddwr osod sancsiwn sifil mewn perthynas â thoriad o'r rheoliadau, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r gweinyddwr—
(a) pan fo'r pŵer yn bŵer i osod cosb ariannol benodedig, i beidio â chyflwyno unrhyw hysbysiad o fwriad pellach y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw, a
(b) pan fo'r pŵer yn bŵer i osod gofyniad yn ôl disgresiwn, i beidio â chyflwyno unrhyw hysbysiad o fwriad pellach y cyfeirir ato ym mharagraff 5(1)(a) mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (1) mewn perthynas â thoriad o'r rheoliadau bagiau siopa os ydynt wedi eu bodloni bod y gweinyddwr wedi methu â gwneud y canlynol ar fwy nag un achlysur—
(a) cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodir arno o dan yr Atodlen hon, neu yn rhinwedd yr Atodlen hon, mewn perthynas a thoriad o'r math hwnnw,

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) gweithredu'n unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd ganddo mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw (yn benodol, y canllawiau a gyhoeddwyd o dan baragraff 13), neu

(c) gweithredu'n unol â'r egwyddorion y cyfeirir atynt ym mharagraff 15 neu ag egwyddorion arferion gorau eraill mewn perthynas â gorfodi toriad o'r math hwnnw.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfarwyddyd, ddirymu cyfarwyddyd a roddwyd ganddynt o dan is-baragraff (1) os ydynt wedi eu bodloni bod y gweinyddwr wedi cymryd y camau priodol i unioni'r methiant yr oedd y cyfarwyddyd hwnnw'n ymwneud ag ef.

(4) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (1) neu (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) y gweinyddwr, a

(b) y personau eraill hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan y paragraff hwn, rhaid iddynt osod copi o'r cyfarwyddyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Rhaid i'r gweinyddwr gymryd camau i ddwyn cyfarwyddyd o dan y paragraff hwn i sylw personau eraill y mae'r cyfarwyddyd yn debygol o effeithio arnynt; a rhaid iddo wneud hynny yn y fath fodd (os o gwbl) y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I115** Atod. 1 para. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru*

18 Pan fo gweinyddwr yn cael y canlynol yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan yr Atodlen hon—

(a) cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy neu gosb am beidio â chydymffurfio,

(b) unrhyw log neu gosb ariannol arall am dalu cosb o'r fath yn hwyr, neu

(c) swm a delir er mwyn rhyddhau rhag atebolrwydd am gosb ariannol benodedig yn unol â pharagraff 3(1)(b),

rhaid i'r gweinyddwr ei dalu neu ei thalu i Gronfa Gyfunol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I116** Atod. 1 para. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Mynegai o dermau wedi eu diffinio*

19 Yn yr Atodlen hon, mae'r ymadroddion a ganlyn yn cael eu diffinio neu eu hegluro fel arall yn y darpariaethau a nodir—

"cosb am beidio â chydymffurfio" ("*non-compliance penalty*"): paragraff 6(1);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

"cosb ariannol amrywiadwy" ("*variable monetary penalty*"): paragraff 4(4) a (3)(a);

"cosb ariannol benodedig" ("*fixed monetary penalty*"): paragraff 2(3);

"gofyniad yn ôl disgresiwn nad yw'n un ariannol" ("*non-monetary discretionary requirement*"): paragraff 4(4) a (3)(b);

"gofyniad yn ôl disgresiwn" ("*discretionary requirement*"): paragraff 4(3);

"hysbysiad cyhoeddusrwydd" ("*publicity notice*"): paragraff 11(2);

"hysbysiad o fwriad" ("*notice of intent*") (mewn perthynas â chosb ariannol benodedig arfaethedig): paragraff 3(1)(a);

"hysbysiad o fwriad" ("*notice of intent*") (mewn perthynas â gofyniad yn ôl disgresiwn arfaethedig): paragraff 5(1)(a);

"sancsiwn sifil" ("*civil sanction*"): paragraff 1(3);

"torri" a "toriad" ("*breach*") (mewn perthynas â rheoliadau bagiau siopa): paragraff 1(2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I117** Atod. 1 para. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

ATODLEN 2 (cyflwynir gan adrannau 27, 64, 70, 81 a 86)

MÂN DDIWYGIADAU, DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU

## RHAN 1

RHEOLI CYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL

*Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (p. 97)*

1 (1) Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 15A(2)—

(a) ym mharagraff (a)—

(i) ar ôl "Act" mewnosoder "or section 16 of the 2016 Act";

(ii) hepgorer yr "and" ar y diwedd;

(b) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) "the 2016 Act" means the Environment (Wales) Act 2016."

(3) Yn adran 16—

(a) yn is-adran (1)—

(i) yn lle "The Natural Resources Body for Wales" y tro cyntaf y mae'n ymddangos rhodder "A Welsh local authority";

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(ii) yn lle "Natural Resources Body for Wales" yr ail dro y mae'n ymddangos rhodder "Welsh local authority";

(b) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) The power of a Welsh local authority in subsection (1)—

(a) is also exercisable where it appears to the authority that it is expedient in the interests of the locality that land should be managed as a nature reserve;

(b) is exercisable only in relation to land in the authority's area that is not held by, or managed in accordance with an agreement entered into with, the Natural Resources Body for Wales.";

(c) yn is-adran (3), ym mharagraffau (b) ac (c), yn lle "the Natural Resources Body for Wales" rhodder "a Welsh local authority";

(d) yn is-adran (4), yn lle "the Natural Resources Body for Wales" rhodder "a Welsh local authority";

(e) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(6) In this section a "Welsh local authority" means—

(a) the council of a county or county borough in Wales, and

(b) a National Park authority for a National Park in Wales."

(4) Yn adran 21(4)—

(a) hepgorer ", the Natural Resources Body for Wales";

(b) yn lle "references in subsection (1) of sections sixteen and seventeen respectively of this Act to the national interest were references" rhodder "reference in subsection (1) of section 17 of this Act to the national interest were a reference".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I118** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

## *Deddf Cefn Gwlad 1968 (p. 41)*

2 (1) Mae Deddf Cefn Gwlad 1968 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 4.

(3) Hepgorer adran 15.

(4) Yn adran 15A(6)(b), yn lle "such agreement as is referred to in section 15(2)" rhodder "an agreement under section 16 of the Environment (Wales) Act 2016 imposing, for the purpose of conserving flora, fauna, or geographical or physiographical features of special interest, restrictions on the exercise of rights over land by persons having an interest in the land".

(5) Yn adran 41(2)(b)—

(a) yn is-baragraff (i), yn lle "section 4" rhodder "an experimental scheme under article 10C of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012 (S.I. 2012/1903), where the scheme is designed to facilitate the

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

enjoyment of the countryside, or to conserve or enhance its natural beauty or amenity";

(b) yn is-baragraff (ii), yn lle "section 4(5)(b)" rhodder "section 16 of the Environment (Wales) Act 2016 that is designed to facilitate the enjoyment of the countryside, or to conserve or enhance its natural beauty or amenity".

(6) Yn adran 45(1), hepgorer "the NRBW or".

(7) Yn adran 47(3), hepgorer "section 4(5)(b) or".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I119** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69)*

3 (1) Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 28E(3)(b) yn lle ", section 15 of the 1968 Act or section 7 of the Natural Environment and Rural Communities Act 2006" rhodder ", section 7 of the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 or section 16 of the Environment (Wales) Act 2016".

(3) Yn adran 28J, hepgorer is-adran (13).

(4) Yn adran 32, ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) Subsection (2) has effect in relation to Wales as if the reference to an agreement under section 16 of the 1949 Act or section 15 of the 1968 Act were a reference to an agreement under section 16 of the Environment (Wales) Act 2016."

(5) Yn adran 39(5), hepgorer paragraff (e).

(6) Hepgorer adran 40.

(7) Yn adran 41(5)—

(a) yn y diffiniad o "management agreement", ym mharagraff (b), ar ôl "39" mewnosoder "or under section 16 of the Environment (Wales) Act 2016";

(b) yn y diffiniad o "the relevant authority" ar ôl "Natural England" mewnosoder "and in relation to Wales it also includes the Natural Resources Body for Wales".

(8) Yn adran 50(1)(a), hepgorer "or an agreement under section 16 of the 1949 Act or section 15 of the 1968 Act".

(9) Yn adran 51(1)—

(a) ym mharagraff (c), hepgorer "or an agreement under section 16 of the 1949 Act or section 15 of the 1968 Act";

(b) ym mharagraff (h), hepgorer "or an agreement under section 16 of the 1949 Act or section 15 of the 1968 Act".

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I120** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

### *Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p. 27)*

4 Yn adran 22(1)(a) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984—

(a) yn is-baragraff (iv), yn lle "or the Natural Resources Body for Wales are conducting a scheme under section 4 of the 1968 Act" rhoedder ", or in which the Natural Resources Body for Wales is conducting a scheme under article 10C of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012 (S.I. 2012/1903) that is designed to facilitate the enjoyment of the countryside or to conserve or enhance its natural beauty or amenity";

(b) yn is-baragraff (v), hepgorer "or an agreement under section 15 of the 1968 Act".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I121** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

### *Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (p. 56)*

5 Yn adran 156(8) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, yn y diffiniad o "management agreement", ym mharagraff (b), ar ôl "1981" mewnosoder "or section 16 of the Environment (Wales) Act 2016".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I122** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

### *Deddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25)*

6 (1) Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 9(5)(b)(ii), hepgorer ", 5E".

(3) Yn adran 66, ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

"(7A) A National Park authority for a park in Wales which is proposing to publish, adopt or review any plan under this section must have regard to—

(a) the state of natural resources report published under section 8 of the Environment (Wales) Act 2016, and

(b) any area statement published under section 11 of that Act for an area that includes all or part of the park."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I123** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37)*

7 Yn adran 90 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) In the case of an area of outstanding natural beauty in Wales, a conservation board or relevant local authority which is proposing to publish, adopt or review any plan under section 89 must have regard to—

(a) the state of natural resources report published under section 8 of the Environment (Wales) Act 2016, and

(b) any area statement published under section 11 of that Act for an area that includes all or part of the area of outstanding natural beauty."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I124** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

### *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5)*

8 (1) Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 60(5), fel y'i hamnewidiwyd gan adran 3 o Ddeddf 2015, cyn paragraff (a) mewnosoder—

"(za) the national natural resouces policy published under section 9 of the Environment (Wales) Act 2016,".

(3) Yn adran 62(5), ar ôl paragraff (ba), fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 25 o Atodlen 2 i Ddeddf 2015, mewnosoder—

"(bb) any area statement published under section 11 of the Environment (Wales) Act 2016 for an area that includes all or part of the area of the authority;".

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "Deddf 2015" yw Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I125** Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

### *Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16)*

9 (1) Mae Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 40—

(a) cyn is-adran (1) mewnosoder—

"(A1) This section applies where—

(a) Her Majesty's Revenue and Customs are exercising their functions;

(b) any other public authority is exercising its functions in relation to England."

(b) yn is-adran (1), yn lle "Every" rhodder "The";

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(c) yn is-adran (2) yn lle ", government department or the National Assembly for Wales" rhodder "or government department";

(d) yn is-adran (4)—

(i) hepgorer paragraff (b);

(ii) ym mharagraff (c), yn lle ", a local planning authority and a strategic planning panel" rhodder "and a local planning authority";

(e) yn is-adran (5), yn y diffiniad o "local authority"—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "in relation to England, a county council" rhodder "a county council in England";

(ii) hepgorer paragraff (b);

(f) yn yr is-adran honno, hepgorer y diffiniad o "strategic planning panel".

(3) Hepgorer adran 42.

(4) Yn Atodlen 11, hepgorer y canlynol—

(a) paragraffau 6 i 8;

(b) paragraff 14(4);

(c) paragraffau 41 a 42;

(d) ym mharagraff 43—

(i) is-baragraffau (2) a (3);

(ii) yn is-baragraff (4), paragraffau (a), (b) ac (c)(i);

(iii) is-baragraff (5);

(iv) is-baragraff (7);

(e) paragraff 44;

(f) paragraff 50;

(g) paragraff 55(2);

(h) paragraff 57;

(i) paragraff 59;

(j) paragraff 80;

(k) paragraffau 117 i 121;

(l) paragraff 123;

(m) paragraff 126;

(n) paragraff 141(2)(b).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I126** Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)*

10 (1) Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 11(3), yn lle'r geiriau ar ôl "nodau" rhodder "a bennir yn Trawsnewid ein byd: Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig gan benderfyniad A/Res/70/1 ar 25 Medi 2015".

(3) Yn adran 38(3), ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

"(ga) pob datganiad ardal o dan adran 11 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (os o gwbl) sy'n ymwneud ag unrhyw ran o ardal yr awdurdod lleol;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I127** Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

*Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4)*

11 Yn Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, hepgorer paragraff 28.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I128** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

PROSPECTIVE

## RHAN 2

CODI TALIADAU AM FAGIAU SIOPA

*Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27)*

12 (1) Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 77, hepgorer y canlynol—
- (a) is-adran (3)(b);
- (b) is-adran (4)(aa).

(3) Yn adran 98, hepgorer yr eitemau ar gyfer "children", "nuisance", "pollution" ac "young people".

(4) Yn Atodlen 6—
- (a) hepgorer paragraffau 4A a 4B;
- (b) hepgorer paragraff 7(3A);
- (c) hepgorer paragraff 8(2A);
- (d) hepgorer paragraff 24(6)(b);
- (e) hepgorer paragraff 25(5)(b);
- (f) hepgorer paragraff 26(2)(a);
- (g) hepgorer paragraff 27(5);
- (h) yn y croesbennawd italig cyn paragraff 28, yn lle "two or more" rhodder "both";
- (i) ym mharagraff 28(1)—
  - (i) hepgorer "any two or more of";
  - (ii) hepgorer paragraff (b) (ond nid yr "and" sy'n ei ddilyn).

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I129** Atod. 2 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

*Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8)*

13 (1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adrannau 1 a 2.

(3) Yn yr Atodlen, hepgorer paragraff 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I130** Atod. 2 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(a)**

VALID FROM 18/10/2023

## RHAN 3

### CASGLU A GWAREDU GWASTRAFF

*Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43)*

14 (1) Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mhennawd adran 45A, yn lle "Arrangements" rhodder "England: arrangements".

(3) Hepgorer adran 45B.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I131** Atod. 2 para. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

*Deddf Ailgylchu Gwastraff Cartrefi 2003 (p. 29)*

15 Yn Neddf Ailgylchu Gwastraff Cartrefi 2003, hepgorer adran 2.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I132** Atod. 2 para. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)*

16 Yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ym mharagraff 35(3), yn Nhabl 1, hepgorer yr eitem sy'n ymwneud ag adran 45B(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I133** Atod. 2 para. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

*Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8)*

17 (1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r croesbennawd italig cyn adran 9 rhodder—

*"Gwaredu ar safle tirlenwi neu drwy losgi".*

(3) Yn adran 11—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "9" mewnosoder "neu 9A";

(b) hepgorer is-adran (2).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I134** Atod. 2 para. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

## RHAN 4

## PWYLLGOR LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL

*Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 (p. 67)*

18 Yn yr Atodlen i Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ym mharagraff 1, ar ôl is-baragraff (i) mewnosoder—

"(ia) the Flood and Coastal Erosion Committee established by section 26B of the Flood and Water Management Act 2010;".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I135** Atod. 2 para. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I136** Atod. 2 para. 18 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

*Deddf Llywodraeth Leol 1974 (p. 7)*

19 Yn adran 25(1)(d) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974, hepgorer "for an area wholly or partly in England".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I137** Atod. 2 para. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I138** Atod. 2 para. 19 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## *Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (p. 57)*

20 (1) Mae Deddf Adnoddau Dŵr 1991 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 118(7)—

(a) cyn "means" mewnosoder—

"—

(a) in relation to the Agency,";

(b) ar ôl "2010" mewnosoder—

", and

(b) in relation to the NRBW, means Wales, within the meaning of section 158 of the Government of Wales Act 2006".

(3) Yn adran 134(2), yn lle "appropriate agency" rhodder "Agency".

(4) Yn adran 138(3), ar ôl "relevant chargeable land" mewnosoder "(where that land is in England) or by the NRBW (where the relevant chargeable land is in Wales)".

(5) Yn adran 145, yn y diffiniad o "flood risk management region"—

(a) cyn "means" mewnosoder—

"—

(a) in relation to the Agency,";

(b) ar ôl "2010" mewnosoder—

", and

(b) in relation to the NRBW, means Wales, within the meaning of section 158 of the Government of Wales Act 2006".

(6) Yn Atodlen 26, ym mharagraff 7, yn y diffiniad o "the relevant Minister", ym mharagraff (a)(ii), hepgorer "the whole or the greater part of which is".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I139** Atod. 2 para. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I140** Atod. 2 para. 20 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

## *Deddf Draenio Tir 1991 (p. 59)*

21 Yn adran 1(1)(a) o Ddeddf Draenio Tir 1991, ar ôl "2010)" mewnosoder "or within Wales (within the meaning of section 158 of the Government of Wales Act 2006)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I141** Atod. 2 para. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I142** Atod. 2 para. 21 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

## *Deddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25)*

22 Yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995—

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) yn is-adran (5), hepgorer "and the Natural Resources Body for Wales' flood defence functions shall extend to the territorial sea adjacent to Wales";

(b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) The flood defence functions of the Natural Resources Body for Wales extend to the territorial sea adjacent to Wales."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I143** Atod. 2 para. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I144** Atod. 2 para. 22 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

## *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p. 36)*

23 Yn Rhan 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ar ôl yr eitem ar gyfer y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio mewnosoder—

"Flood and Coastal Erosion Committee or Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I145** Atod. 2 para. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I146** Atod. 2 para. 23 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

## *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p. 10)*

24 Yn Atodlen 3 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, yn lle "A Regional Flood and Coastal Committee for an area wholly or partly in Wales" rhodder "The Flood and Coastal Erosion Committee".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I147** Atod. 2 para. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I148** Atod. 2 para. 24 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

## *Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29)*

25 (1) Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 6, ar y diwedd mewnosoder—

"(17) "Wales" has the meaning given by section 158 of the Government of Wales Act 2006."

(3) Yn adran 17(4), ar ôl "section 23(3)" mewnosoder "for the Agency".

(4) Yn y croesbennawd italig cyn adran 22, ar ôl "Committees" mewnosoder "for regions in England".

(5) Yn adran 22—

(a) yn is-adran (1)—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(i) yn lle "appropriate agency" rhodder "Environment Agency";
(ii) hepgorer "and Wales";
(iii) hepgorer y geiriau o "that is wholly or mainly in England" hyd ddiwedd yr is-adran;

(b) yn is-adran (2)—
(i) yn lle "Minister" rhodder "Secretary of State";
(ii) yn lle "appropriate agency" rhodder "Agency";

(c) hepgorer is-adran (3).

(6) Yn adran 23—

(a) Yn is-adran (1)—
(i) yn y geiriau agoriadol, yn lle "appropriate agency" rhodder "Environment Agency";
(ii) ym mharagraff (a), yn lle "appropriate agency" rhodder "Agency";
(iii) ym mharagraff (b), yn lle "appropriate agency's" rhodder "Agency's";

(b) yn is-adrannau (2) i (4), yn lle "appropriate agency" rhodder "Agency".

(7) Yn adran 24, yn lle "Minister" rhodder "Secretary of State".

(8) Yn adran 25—

(a) yn is-adran (1)—
(i) yn y geiriau agoriadol, yn lle "Minister may direct the appropriate agency" rhodder "Secretary of State may direct the Environment Agency";
(ii) ym mharagraff (d), yn lle "Minister" rhodder "Secretary of State";

(b) yn is-adran (2), yn lle "appropriate agency" rhodder "Agency";

(c) yn is-adran (3), yn lle "Minister" rhodder "Secretary of State".

(9) Hepgorer adrannau 26 a 26A.

(10) Yn adran 49(3), hepgorer paragraff (c).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I149** Atod. 2 para. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**

**I150** Atod. 2 para. 25 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

## *Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 (p. 24)*

26 (1) Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 13—

(a) yn is-adran (1)—
(i) ar ddiwedd paragraff (b) mewnosoder "or";
(ii) hepgorer paragraff (d) a'r "or" o'i flaen;

(b) hepgorer is-adran (4);

(c) hepgorer is-adrannau (8) a (9).

(3) Yn adran 36(1), yn y diffiniad o "cross-border operator"—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(a) ar ddiwedd paragraff (za), mewnosoder "or";
(b) hepgorer paragraff (b) a'r "or" o'i flaen.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I151** Atod. 2 para. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**
**I152** Atod. 2 para. 26 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

*Deddf Dŵr 2014 (p. 21)*

27 Yn Atodlen 10 i Ddeddf Dŵr 2014, hepgorer paragraff 18.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I153** Atod. 2 para. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(d)**
**I154** Atod. 2 para. 27 mewn grym ar 14.7.2017 gan O.S. 2017/714, **ergl. 2**

## RHAN 5

## IS-DDEDDFAU

*Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (p. 97)*

28 (1) Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 106(5), yn lle "Countryside Council for Wales" rhodder "Natural Resources Body for Wales".

(3) Yn adran 106A, yn y pennawd ac yn is-adran (1), yn lle "Countryside Council for Wales" rhodder "Natural Resources Body for Wales".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I155** Atod. 2 para. 28 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(g)**

*Deddf Cefn Gwlad 1968 (p. 41)*

29 Yn adran 41(7A) o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, yn lle "Council" rhodder "NRBW".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I156** Atod. 2 para. 29 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(g)**

*Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (dccc 2)*

30 (1) Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Yn adran 3(d), yn lle "Cyngor Cefn Gwlad Cymru" rhodder "Corff Adnoddau Naturiol Cymru".

(3) Yn adran 7(8)(b), yn lle "Gyngor Cefn Gwlad Cymru" rhodder "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru".

(4) Yn adran 8(8), yn y geiriau agoriadol—

(a) yn lle "Gyngor Cefn Gwlad Cymru" rhodder "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru";

(b) yn lle "i'r Cyngor" rhodder "i'r Corff".

(5) Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 11.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I157** Atod. 2 para. 30 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(g)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 17/10/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Act yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.